

Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2016/17

Cyflwr dysgu ieithoedd
mewn ysgolion
uwchradd yng Nghymru



Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2016/17

Cyflwr dysgu
ieithoedd mewn
ysgolion uwchradd
yng Nghymru

Cynnwys

Gair am y Cyngor Prydeinig	3	3. Data arholiadau ysgolion yng Nghymru	26
Am yr awduron	4	TGAU	27
Diolchiadau	4	Safon Uwch	29
		Niferoedd Uwch Gyfranno	31
Crynodeb gweithredol	5		
Canfyddiadau Allweddol	7	4. Canfyddiadau'r arolwg	32
Niferoedd sy'n sefyll arholiadau	9	Y nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4	33
Nifer sy'n astudio	9	Ieithoedd tramor modern ôl-16	39
Staff addysgu	10	Staff addysgu	43
Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)	11	Cymorth a Datblygiad Proffesiynol Parhaus	47
Cyswllt ag Ysgolion Cynradd	11	Cysylltiadau ag ysgolion cynradd	51
Ieithoedd tramor modern ac Addysgu Cymraeg	11	Ieithoedd tramor modern ac addysgu Cymraeg	53
Ymgysylltiad Rhyngwladol	11	Ymgysylltiad rhyngwladol	54
Materion sy'n peri pryder	12	Effaith Brexit	57
Casgliadau	12	Materion sy'n peri pryder	58
1. Cyflwyniad	15	5. Casgliadau	62
Y cyd-destun polisi	16	Atodiad - Proffil ymatebion	65
Dyfodol Byd-eang	18		
Estyn	18		
Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru	20		
2. Cynllunio'r ymchwil a chasglu data	22		
Dadansoddi data arholiadau	23		
Datblygu'r holiaduron	23		
Casglu data	24		
Dadansoddi'r data	25		

Gair am y Cyngor Prydeinig

Y Cyngor Prydeinig yw sefydliad rhyngwladol y DU dros gysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn creu cyfleoedd rhyngwladol i bobl y DU a gwledydd eraill ac yn meithrin ymddiriedaeth rhyngddynt yn fyd-eang.

Rydym yn gweithio mewn mwy na 100 o wledydd ac mae ein 8,000 o staff - gan gynnwys 2,000 o athrawon - yn gweithio gyda miloedd o weithwyr proffesiynol a llunwyr polisiau ynghyd â miliynau o bobl ifanc bob blwyddyn drwy addysgu Saesneg, rhannu'r celfyddydau a darparu rhaglenni cymdeithas ac addysg.

Rydym yn elusen yn y DU sy'n cael ei llywodraethu gan Siarter Frenhinol. Mae grant craidd a ariennir drwy arian cyhoeddus yn darparu 16 y cant o'n trosiant a oedd y llynedd yn £973 miliwn. Daw gweddill ein refeniw o'r gwasanaethau y mae cwsmeriaid o bob cwr o'r byd yn talu amdanynt, megis dosbarthiadau Saesneg a sefyll arholiadau yn y DU, a hefyd drwy gontractau addysg a datblygu a drwy bartneriaethau gyda sefydliadau cyhoeddus a phreifat. Mae ein holl waith yn cyflawni ein diben elusennol ac yn cefnogi ffyniant a diogelwch i'r DU ac yn fydeang.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.britishcouncil.org

Am yr awduron

Teresa Tinsley wedi sefydlu a datblygu'r gyfres Tueddiadau Ieithoedd o arolygon sydd wedi olrhain cyflwr ieithoedd mewn gwahanol sectorau addysg er 2002. Yn ogystal â chynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth am sefyllfa ieithoedd mewn ysgolion uwchradd Cymru a Lloegr, mae'r arolygon hefyd wedi rhoi sylw i'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd cymunedol ar draws y DU, a dysgu iaith ym maes Addysg Bellach ac Addysg i Oedolion. Arferai Teresa fod yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu yn CILT, y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol, a sefydlodd Alcantara Communications yn 2011 ac ers hynny mae wedi gwneud gwaith ymchwil i ieithoedd gan ganolbwyntio ar bolisi ar gyfer yr Academi Brydeinig a'r Cyngor Prydeinig, yn ogystal ag i Ymddiriedolaeth Addysg CfBT. Mae ei gwaith ar gyfer CfBT yn cynnwys adolygiad rhyngwladol o ieithoedd cynradd, Gwersi o dramor, yn ogystal â'r adroddiadau Tueddiadau Ieithoedd o 2011 i 2017, gan gynnwys arolwg Tueddiadau Ieithoedd y Llynedd yng Nghymru.



Teresa Tinsley

Roedd Kathryn Board, OBE, yn Brif Weithredwr CILT, y Ganolfan Genedlaethol ar gyferieithoedd o 2008 ac yn y swydd honno bu'n gweithio gydag arbenigwyr ac amrywiaeth eang o sefydliadau addysgol i gynnig cyngor ar bolisi addysgol a oedd yn gysylltiedig ag addysgu ieithoedd a hefyd ar fentrau er mwyn cynyddu dysgu ieithoedd ar draws y DU. Cyn ymuno â CILT, treuliodd 30 mlynedd yn gweithio dros y British Council mewn nifer o swyddi rhyngwladol a rheoli. Hefyd bu'n arwain ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg CfBT ar ddatblygu Strategaeth Ieithoedd ac ar gyflawni nifer o brosiectau cenedlaethol i gynorthwyo addysgu ieithoedd yn ysgolion Lloegr. Mae hi bellach wedi lled-ymddeol, ac yn parhau i weithio ar brosiectau ymchwil lle gall gyflwyno ei harbenigedd. Mae Kathryn yn siarad Sbaeneg, Almaeneg ac Iseldireg ac ar hyn o bryd mae'n gweithio'n galed i wella ei Harabeg.



Kathryn Board, OBE

Diolchiadau

Hoffem yn arbennig gydnabod amser ac ymdrech yr holl athrawon a gwblhaodd arolwg eleni a darparu cymaint o dystiolaeth a sylwadau cyfoethog i'r ymchwilwyr. Mae'r wybodaeth y mae'r ymatebwyr wedi'i rhoi yn hanfodol wrth ddeall y darlun cenedlaethol ac wrth ddatblygu ein gallu ni i gyd i wella'r ddarpariaeth.

Crynodeb gweithredol



Daw'r trydydd arolwg Tueddiadau Ieithoedd blynyddol hwn o Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru 18 mis yn unig i mewn i gynllun Dyfodol Byd-eang pum mlynedd Llywodraeth Cymru i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru, 2015-2020.¹

Ymatebodd y cynllun i bryderon cynyddol ynghylch statws gostyngol ieithoedd tramor modern mewn ysgolion yng Nghymru a dirywiad difrifol yn nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc ar lefel TGAU a Safon Uwch. Rhwng 2002 a 2016, gostyngodd nifer y disgyblion sy'n astudio iaith dramor ar lefel TGAU 48 y cant, ac ar lefel Safon Uwch, mae'r niferoedd wedi gostwng 44 y cant ers 2001.

Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa heriol hon a gweithio i ddatblygu cenedlaeth o ieithyddion ifanc yn y dyfodol a all gyfrannu at ddyheadau'r llywodraeth i sicrhau Cymru ffyniannus a blaengar, mae cynllun *Dyfodol Byd-eang* yn cefnogi nifer o fentrau cenedlaethol sydd â'r nod o wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru. Ei uchelgais yw bod Cymru yn dod yn 'wlad ddwyieithog a mwy'. Gan feddwl yn ehangach, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnal rhaglen eang o ddiwygio addysgol yn cynnwys datblygu cwricwlwm newydd yn seiliedig ar argymhellion adolygiad Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*, cyflwyno TGAU a Safon Uwch newydd a Bagloriaeth Cymru. Mae *Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2016/17* yn archwilio beth sy'n digwydd i addysg ieithoedd tramor mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru a'r effaith y mae diwygiadau a mentrau'r llywodraeth yn ei chael ar athrawon ieithoedd tramor modern a'u disgyblion. Yn benodol, mae ein hymchwil yn ystyried y consortia rhanbarthol a'r canolfannau rhagoriaeth a sefydlwyd o dan y cynllun *Dyfodol Byd-eang* ac mae'n gofyn i athrawon sut maent yn ymgysylltu â'r rhain nawr eu bod wedi bod yn weithredol ers mwy na blwyddyn. Rydym hefyd yn ceisio adborth athrawon ar y manylebau newydd ar gyfer TGAU a Safon Uwch mewn ieithoedd a'r rhagolwg ar gyfer ieithoedd tramor modern mewn ysgolion wrth i'r DU baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Comisiynwyd yr ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn gan y British Council Cymru, ac mae'n seiliedig ar ddadansoddiad o arolygon ar-lein a gwblhawyd gan athrawon sy'n gyfrifol am ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd ledled y wlad. Fe'i cynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017 a chafwyd cyfradd ymateb o 56 y cant (118 o ymatebion o gyfanswm o 210 o ysgolion uwchradd yng Nghymru).

Roedd ein hadroddiad diwethaf ar Dueddiadau Ieithoedd yng Nghymru (2015/16) hefyd yn cynnwys arolwg o ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd. Y bwriad oedd darparu astudiaeth feincnod o addysg ieithoedd tramor modern yn y cam cynradd i gyd-fynd â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i dderbyn argymhellion arolwg Donaldson, yn cynnwys ei gynnig i ymgorffori ieithoedd tramor modern mewn addysg gynradd o 2020. Gan mai megis dechrau y mae'r broses o roi'r polisi hwn ar waith, nid ydym wedi ailgynnal yr arolwg o ysgolion cynradd yng Nghymru yn ein hymchwil ar gyfer 2016/17 er ein bod wedi cynnwys cwestiynau ar gyfer ysgolion uwchradd er mwyn gallu bwydo gwybodaeth feintiol ac ansoddol i mewn i'r broses.

Rhwng 2002 a 2016, gostyngodd nifer y disgyblion sy'n astudio iaith dramor ar lefel TGAU 48 y cant, ac ar lefel Safon Uwch, mae'r niferoedd wedi gostwng 44 y cant ers 2001.

¹*Dyfodol Byd-eang. Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru, 2015-2020 (Llywodraeth Cymru, 2015)*

Canfyddiadau Allweddol

- Mae'r nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4 yn parhau i ostwng, ym Mlynnyddoedd 10 ac 11. Mae cyfran yr ysgolion y mae mwy na 25 y cant o'u disgyblion yn astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi gostwng i'r graddau fel bod gan fwy nag un rhan o dair o ysgolion lai na deg y cant o ddisgyblion Blwyddyn 10 sy'n astudio'r pwnc. Caiff y gostyngiad parhaus ei briodoli'n bennaf i'r pwyslais a roddir ar bynciau gorfodol a chyflwyno Bagloriaeth Cymru sydd wedi gostwng nifer y slotiau opsiwn rhydd sydd ar gael i ddisgyblion.
- Mae'r sefyllfa ar gyfer ieithoedd tramor modern ôl-16 yn gynyddol fregus, yn enwedig yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol sy'n golygu na all ysgolion fforddio cynnal cyrsiau ar gyfer niferoedd bach. Mae gan tua 44 y cant o ysgolion lai na phum disgybl yn astudio cyrsiau UG, ffigur sy'n codi i 61 y cant yn achos ysgolion sydd â llai na phum disgybl yn astudio U2. Rhoddir anhawster canfyddedig arholiadau UG a Safon Uwch, cystadleuaeth gan bynciau eraill a'r gronfa ostyngol o ddisgyblion TGAU i'w denu fel rhesymau dros y niferoedd gostyngol o ddisgyblion sy'n astudio ieithoedd modern ar y lefel hon. Caiff yr heriau hyn eu dwysáu ymhellach gan y pwysau ariannol presennol ar ysgolion.
- Dim ond un neu ddau athro llawn amser sydd gan bron i ddwy ran o dair o adrannau ieithoedd tramor modern (64 y cant) a dim ond un athro llawn amser sydd gan fwy nag un rhan o dair ohonynt (36 y cant). Ceir dibyniaeth sylweddol ar wladolion yr UE nad ydynt yn Brydeinig i addysgu ieithoedd tramor modern: mae cynifer â 34 y cant o ysgolion yn cyflogi athrawon iaith o aelod-wladwriaethau eraill yn rhan amser neu'n llawn amser.
- Mae menter *Dyfodol Byd-eang* wedi cyrraedd cynifer â 72 y cant o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg eleni. Mae llawer o athrawon yn canmol y cymorth a gawsant, er bod ymatebion hefyd yn nodi bod ymgysylltiad llwyddiannus yn ddiabynnol iawn ar bersonoliaeth ac effeithiolrwydd yr unigolion sy'n arwain y consortiwm rhanbarthol neu'r ganolfan ragoriaeth benodol.
- Y mathau o gymorth gan y consortia rhanbarthol neu'r ganolfan ragoriaeth leol a werthfawrogir fwyaf gan athrawon yw DPP pwnc-benodol a'r cyfle i rannu arfer wyneb yn wyneb â'u cymheiriaid. Cymorth ar gyfer datblygu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd yw'r maes y manteisiwyd arno leiaf gan ysgolion ac a werthfawrogir leiaf gan athrawon.
- Ceir enghreifftiau o arfer da wrth helpu ysgolion cynradd i osod sylfeini da ar gyfer ieithoedd tramor modern, y gellid eu hailadrodd yn ehangach drwy'r rhwydwaith o gonsortia rhanbarthol er mwyn cefnogi nodau cynllun *Dyfodol Byd-eang*.
- Er bod un rhan o dair o athrawon ieithoedd tramor o'r farn bod addysgu Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd yn paratoi disgyblion yn rhesymol ar gyfer dysgu iaith dramor ym mlwyddyn 7, nid yw'r mwyafrif (mwy na 60 y cant) o'r farn bod addysgu'r naill iaith na'r llall yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cefnogi'r broses ddilynol o gaffael trydedd iaith.
- Mae pedair ysgol allan o bump (82 y cant) yn nodi eu bod yn trefnu teithiau tramor i'w disgyblion. Fodd bynnag, mae tystiolaeth hefyd fod amharodrwydd cynyddol ar ran rhieni a disgyblion i aros yng nghartrefi pobl eraill ac, mewn rhai achosion, bryderon ynghylch risgiau diogelwch a sefyllfaoedd gwleidyddol ansicr, yn effeithio'n andwyol ar deithiau cyfnewid disgyblion.

Mae cynifer â 34 y cant o ysgolion yn cyflogi athrawon iaith o aelod-wladwriaethau eraill yn rhan amser neu'n llawn amser.



- Mae athrawon ieithoedd tramor modern yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan amrywiaeth o ffactorau yn cynnwys newidiadau i'r system opsiynau, manylebau TGAU a Safon Uwch newydd, cyflwyno Bagloriaeth Cymru a gostyngiad mewn oriau addysgu ar gyfer ieithoedd tramor modern. Maent hefyd yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y diffyg cymorth a dealltwriaeth ymddangosiadol gan arweinwyr mewn ysgolion. Maent yn credu mai'r difaterwch cenedlaethol tuag at ieithoedd a diwylliannau eraill sy'n bennaf cyfrifol am gyflwr ieithoedd tramor modern mewn ysgolion ar hyn o bryd ac maent yn annog y llywodraeth, arweinwyr ysgolion, sefydliadau arbenigol a chyrrff dylanwadol eraill i fod yn fwy llafar ynghylch buddiannau ieithoedd i gymdeithas ac i unigolion.

Caiff y canfyddiadau hyn eu trafod yn fanylach isod.

Niferoedd sy'n sefyll arholiadau

Dangosodd dadansoddiad o'r data ar arholiadau sydd ar gael i'r cyhoedd fod nifer y disgyblion o ysgolion yng Nghymru a safodd arholiadau TGAU mewn iaith dramor fodern yn 2016 wedi gostwng i tua 52 y cant o'r nifer a safodd yr un arholiadau yn 2002. Yn ystod y deuddeg mis rhwng 2015 a 2016 yn unig, gostyngodd y nifer a safodd arholiadau Ffrangeg TGAU fwy na 10 y cant a'r nifer a safodd arholiadau Sbaeneg bron 18 y cant. Fodd bynnag, er bod y nifer a safodd arholiadau Almaeneg yn fach iawn o hyd, gwelwyd cynnydd trawiadol o 19 y cant dros yr un cyfnod.

Ar lefel Safon Uwch, mae'r darlun ar gyfer ieithoedd tramor modern yn arbennig o lwm gyda'r niferoedd sy'n sefyll arholiadau ym mhob un o'r prif ieithoedd Ewropeidd yn parhau i ddangos gostyngiad sylweddol. Mae'r cyfnod o ddeuddeg mis rhwng 2015 a 2016 yn dangos gostyngiad cyffredinol pellach o 10 y cant. Mewn cyd-destun lle mae'r nifer sy'n sefyll arholiadau ar gyfer pynciau Safon Uwch yn gyffredinol wedi cynyddu saith y cant ers 2001, mae'n arbennig o bryderus nodi bod y nifer sy'n sefyll arholiadau ieithoedd tramor modern wedi gostwng 44 y cant dros yr un cyfnod.

Nifer sy'n astudio

Mae'r canfyddiadau o ymchwil eleni yn awgrymu y bydd y nifer sy'n sefyll arholiadau TGAU yn debygol o barhau i ostwng yn 2017 ac yn 2018. Mae cyfran yr ysgolion sydd â llai na 10 y cant o ddisgyblion yn astudio iaith dramor fodern ym Mlwyddyn 10 yn codi: o lai nag un chwarter (24 y cant) yn 2016 i fwy nag un rhan o dair (36 y cant) yn 2017. Mae nifer fach o ysgolion wedi cynyddu'r niferoedd ar gyfer ieithoedd tramor modern, ond mae cyfran yr ysgolion sy'n recriwtio mwy na 50 y cant o ddisgyblion ar gyfer y pwnc yn isel iawn o hyd, ar tua chwech y cant.

Mae tystiolaeth feintiol ac ansoddol o'r arolwg yn dangos cyfres gymhleth o resymau dros y gostyngiad parhaus yn nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern. Ymysg y rhain mae gostwng nifer y blociau opsiwn y mae disgyblion yn dewis eu pynciau TGAU ohonynt o bedwar i dri a chyflwyno Bagloriaeth Cymru i bob disgybl. Un o sgileffeithiau'r newidiadau hyn yw bod ieithoedd modern yn cael trafferth oherwydd y pwyslais a roddir ar bynciau gorfodol ac am eu bod yn cystadlu ag amrywiaeth eang o bynciau poblogaidd fel addysg gorfforol, cerddoriaeth a drama, sy'n cael eu hystyried gan ddisgyblion yn haws ac yn fwy o hwyl na phwnc heriol ac academaidd fel Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg. Mae nifer o athrawon yn nodi bod llawer o arweinwyr ysgolion yn ogystal â disgyblion o'r farn bod y gofyniad i astudio Cymraeg hyd at lefel TGAU yn diwallu'r angen i gynnwys iaith yn eu portffolio o bynciau.

Ar lefel Safon Uwch, mae'r darlun ar gyfer ieithoedd tramor modern yn arbennig o lwm gyda'r niferoedd sy'n sefyll arholiadau ym mhob un o'r prif ieithoedd Ewropeidd yn parhau i ddangos gostyngiad sylweddol.

Yn y lleiafrif bach o ysgolion sydd â niferoedd uwch o ddisgyblion yn astudio ieithoedd modern yng Nghyfnod Allweddol 4 neu sydd wedi llwyddo i gynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis astudio'r pwnc, mae hyn wedi digwydd o ganlyniad ymgyrchoedd hyrwyddo dwys, weithiau gyda chymorth canolfannau rhagoriaeth lleol neu gonsortia rhanbarthol a sefydlwyd dan gynllun *Dyfodol Byd-eang* pum mlynedd y llywodraeth.

Dim ond 66 o'r ysgolion yn ein harolwg sy'n addysgu ieithoedd modern ôl-16. Mae'r ysgolion hynny sydd â disgyblion ôl-16 ond nad ydynt yn cynnig ieithoedd tramor modern yn nodi'r niferoedd isel sy'n awyddus i astudio'r pwnc, trefniadau consortiwm ag ysgolion eraill a chyfyngiadau ariannol ar grwpiau bach fel rhesymau dros hynny. Gan edrych yn fanylach ar y rhesymau pam mae disgyblion yn dewis peidio ag astudio iaith dramor ar y lefel hon, mae'n amlwg bod cystadleuaeth â phynciau STEM yn cael effaith andwyol ar ieithoedd modern yn ogystal â'r gred ei bod yn anoddach cael y graddau uchaf mewn iaith ar lefel Safon Uwch nag ydyw ar gyfer pynciau academiaidd eraill. Mae mwy na hanner yr ysgolion hynny sy'n cynnig ieithoedd modern ôl-16 yn cynnal cyrsiau U2 gyda llai na phum disgybl. Mae cynifer â dwy ran o dair o'r ysgolion (65 y cant) yn dweud bod y niferoedd ar gyfer ieithoedd tramor modern ôl-16 yn lleihau ac mae mwyafrif yr athrawon sy'n nodi gostyngiadau yn dweud bod eu hysgol yn prysur nesáu at yr adeg lle na fyddant yn gallu cynnig ieithoedd ar y lefel hon mwyach. Felly, mae angen gweithredu'n ddi-oed, nid yn unig i roi hwb i'r niferoedd ar lefel TGAU, ond hefyd i sicrhau bod nifer ddigonol o ddisgyblion yn mynd ymlaen i astudio ôl-16 er mwyn sicrhau y gellir diogelu hyfywedd y pwnc.

Staff addysgu

Mae'r mwyafrif o adrannau ieithoedd tramor modern mewn ysgolion yng Nghymru yn fach, yn aml maent ond yn cynnwys un neu ddau athro llawn amser, ac mae llawer o ysgolion yn dibynnu ar staff rhan amser. Mae cynifer ag un rhan o dair o ysgolion yn dibynnu ar wladolion o'r UE nad ydynt yn Brydeinig ar gyfer eu darpariaeth ieithoedd tramor modern, naill ai ar sail llawn amser neu ran amser. Mae'r ail bwynt hwn yn arbennig o berthnasol yn dilyn penderfyniad y DU yn y refferendwm yn 2016 i adael yr UE oherwydd yr ansicrwydd ynghylch p'un a fydd unigolion o'r fath yn gallu parhau i weithio yn y DU unwaith y bydd y trafodaethau i adael yr UE wedi'u cwblhau.

Yng ngwaith ymchwil 2016/17, roeddem yn awyddus i asesu'r graddau y defnyddir cynorthwywyr iaith mewn ysgolion yng Nghymru a hefyd i ganfod p'un a yw'r ysgolion hynny sydd â phrofiad uniongyrchol o ddefnyddio cynorthwywyr iaith yn ystyried bod eu mewnbwn wedi chwarae rôl werthfawr o ran cyfoethogi arlwy ieithoedd tramor modern yr ysgol. Nododd mwy na hanner yr ysgolion (57 y cant) eu bod wedi cyflogi cynorthwydd iaith ar ryw adeg yn y gorffennol er bod cyfyngiadau ariannol a niferoedd gostyngol o ddisgyblion wedi gostwng y ffigur hwn i 16 y cant. Mae'r mwyafrif o ysgolion sydd â phrofiad uniongyrchol o ddefnyddio cynorthwywyr iaith yn nodi eu bod yn effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion, yn enwedig ym meysydd ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chodi hyder disgyblion gyda sgiliau llafar.

Mae'r mwyafrif o ysgolion sydd â phrofiad uniongyrchol o ddefnyddio cynorthwywyr iaith yn nodi eu bod yn effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion, yn enwedig ym meysydd ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chodi hyder disgyblion gyda sgiliau llafar

Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Mae gallu athrawon i loywi a chynnal eu gwybodaeth am y pwnc drwy DPP rheolaidd yn hanfodol i les y proffesiwn addysgu. Yn ein hymchwil, roeddem yn awyddus i ddysgu am y math o DPP pwnc-benodol y caiff athrawon ieithoedd tramor modern y cyfle i ymgymryd ag ef, a pha mor aml y bydd hynny'n digwydd, ac i bennu'r graddau y mae'r canolfannau rhagoriaeth a chonsortia rhanbarthol newydd, a sefydlwyd fel rhan o fenter *Dyfodol Byd-eang* y llywodraeth, yn arwain datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon ieithoedd tramor modern yn effeithiol. Nododd cynifer â 72 y cant o athrawon a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi cael rhyw fath o gymorth gan y canolfannau newydd y llynedd. Dangosodd yr ymatebion hefyd fod cyfranogiad rheolaidd mewn DPP a drefnir ac a gyflwynir yn fewnol yn yr ysgol wedi cynyddu o 28 y cant o ysgolion y llynedd i 36 y cant o ysgolion eleni. Mae mwy na hanner yr ysgolion (54 y cant) yn anfon o leiaf un athro ieithoedd tramor modern i gael hyfforddiant gan y byrddau arholi yn rheolaidd ac mae tua hanner yn mynychu cyfarfodydd rhwydwaith ag ysgolion a drefnir gan yr awdurdodau lleol, canolfannau rhagoriaeth lleol neu gonsortia rhanbarthol yn rheolaidd. Prin iawn yw'r rhai sy'n manteisio ar weminarau, hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant cymheiriaid gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Cyswllt ag Ysgolion Cynradd

Yn dilyn ein hastudiaeth feincnod o addysg ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd yn 2015, roeddem yn awyddus i ddatblygu'r ymchwil hon â rhagor o gwestiynau am gysylltiadau uwchradd/cynradd â'r athrawon uwchradd a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil eleni. Mae arolwg eleni yn datgelu nad oes llawer wedi newid ers y llynedd a dim ond tua hanner yr ysgolion uwchradd sydd mewn cyswllt â rhai/unrhyw rai o'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo. Nodir cyfyngiadau ariannol, llwyth gwaith a rhwystrau daearyddol fel rhesymau dros y ffaith nad oes cyswllt ehangach. Mae hefyd yn ddiddorol nodi bod y dystiolaeth feintiol ac ansoddol o'n hymchwil yn nodi mai DPP sy'n canolbwyntio ar ysgolion cynradd a ddarperir gan y canolfannau rhagoriaeth/consortia rhanbarthol newydd, yw'r math o DPP a ddefnyddir leiaf gan ysgolion ac a werthfawrogir leiaf gan y sawl sydd wedi dod ar ei draws. Ymddengys bod cyllid yn fater allweddol er mwyn annog mwy o ysgolion i ailadrodd y pocedi o arfer da a brwdfrydedd sy'n sicr yn bodoli, ac adeiladu arnynt, gan fod tystiolaeth bod rhywfaint o'r effaith gadarnhaol a ddaeth yn sgil prosiectau blaenorol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'i cholli yn y blynyddoedd diwethaf gan fod cyllid wedi'i dynnu'n ôl. Mae hefyd yn amlwg y gellid gwneud mwy i integreiddio trafodaeth am ieithoedd tramor modern mewn trefniadau pontio ar gyfer Cymraeg a Saesneg.

Mae arolwg eleni yn datgelu nad oes llawer wedi newid ers y llynedd a dim ond tua hanner yr ysgolion uwchradd sydd mewn cyswllt â rhai/unrhyw rai o'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo

Ieithoedd tramor modern ac Addysgu Cymraeg a Saesneg

Prin iawn yw'r athrawon yn ein harolwg sydd o'r farn bod addysgu Cymraeg neu Saesneg mewn ysgolion cynradd yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer dechrau astudio iaith dramor ym Mlwyddyn 7. Mae llawer yn cwyno am y ffaith bod disgyblion yn eu cyrraedd ym Mlwyddyn 7 ar ôl astudio Cymraeg a Saesneg drwy'r ysgol gynradd ond mai gwybodaeth ramadegol wael iawn sydd ganddynt o hyd ac na allant wneud cysylltiadau rhwng geirfa a strwythurau iaith er mwyn helpu i gaffael iaith dramor fodern. Fodd bynnag, mae'n sicr y ceir corff o arbenigedd, yn enwedig mewn ysgolion cynradd Cymraeg, y gellid manteisio arno er mwyn gwella'r sefyllfa wrth i gwricwlwm Donaldson gael ei ddatblygu.

Ymgysylltiad Rhyngwladol

Ers degawdau, mae ysgolion wedi dibynnu ar amrywiaeth o fentrau, yn cynnwys cysylltiadau ag ysgolion, ymweliadau cyfnewid a theithiau tramor, i ysgogi disgyblion i ddsygu iaith dramor a rhoi cyflwyniad uniongyrchol iddynt i'r iaith yn y wlad y caiff ei siarad, am y tro cyntaf yn aml. Nododd mwy na phedair allan o bump (82 y cant) ysgol yn ein harolwg eu bod yn trefnu teithiau tramor ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ansoddol a ddarparwyd gan ymatebwyr i arolwg Tueddiadau Iaith eleni yn awgrymu bod cyfyngiadau ariannol, diffyg diddordeb gan ddisgyblion ac anhoffter o 'aros gyda dieithriaid' yn dechrau cael effaith andwyol ar allu ysgolion i roi profiadau rhyngwladol i'w disgyblion. Mae lefel yr ymgysylltiad rhyngwladol yn amrywio'n fawr rhwng ysgolion: er nad yw rhai ysgolion yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o weithgarwch rhyngwladol (e.e. cysylltiadau ag ysgolion neu deithiau tramor), mae eraill yn cynnig sawl ffordd i ddisgyblion ymgysylltu â'r byd y tu hwnt i Gymru. Mae ysgolion sy'n gweithio mewn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol mwy breintiedig yn fwy tebygol o gynnig amrywiaeth o weithgareddau o'r fath ar gyfer disgyblion.

Materion sy'n peri pryder

Mae athrawon ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru yn bryderus iawn ynghylch dyfodol eu pwnc ac maent yn ystyried bod y gostyngiad yn y colofnau opsiynau TGAU ac amser dysgu a amserlennir ar gyfer ieithoedd tramor modern, cyflwyno Bagloriaeth Cymru ac anhawster canfyddedig ieithoedd tramor modern yn fygythiadau i hyfywedd eu pwnc na allant fynd i'r afael â nhw. Mae'r difaterwch cenedlaethol tuag at ieithoedd a diwylliannau tramor yn gwaethygu'r sefyllfa a byddai athrawon yn croesawu ymyrraeth fwy pendant yn ogystal â chefnogaeth fwy amlwg i fuddiannau ieithoedd tramor gan y sawl sydd â'r awdurdod i gyflwyno newid.

Nododd y mwyafrif o ysgolion nad ydynt wedi gweld unrhyw newidiadau eto o ran agwedd disgyblion na nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc o ganlyniad i benderfyniad y DU i adael yr UE yn 2016. Fodd bynnag, mae'r sawl sy'n nodi eu bod wedi gweld newidiadau yn dweud bod hyn wedi cael effaith negyddol ar farn disgyblion ynghylch pwysigrwydd dysgu iaith dramor ac ar hyder staff yn nymuniad y wlad i gyflogi gwladolion o'r UE nad ydynt yn Brydeinig.

Nododd y mwyafrif o ysgolion nad ydynt wedi gweld unrhyw newidiadau eto o ran agwedd disgyblion na nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc o ganlyniad i benderfyniad y DU i adael yr UE yn 2016.

Casgliadau

1. Mae'r sefyllfa a'r rhagolygon ar gyfer ieithoedd tramor modern yn eithriadol o heriol o hyd gydag ymyriadau yn lliniaru effaith problemau sylfaenol yn hytrach na chyflawni newid systemig.

Mae athrawon ieithoedd tramor modern yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan amrywiaeth o ffactorau yn cynnwys newidiadau i'r system opsiynau, manylebau TGAU a Safon Uwch newydd, cyflwyno Bagloriaeth Cymru a gostyngiad mewn oriau addysgu ar gyfer ieithoedd tramor modern, ac maent y bryderus iawn ynghylch dyfodol eu pwnc. Mae'r rhagolygon ar gyfer ieithoedd tramor modern hyd yn oed yn fwy bregus yng nghyd-destun y pwysau ariannol ar ysgolion ac effaith bosibl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4 yn parhau i ostwng, ym Mlwyddyn 10 ac ym Mlwyddyn 11, sy'n awgrymu y bydd y niferoedd ar gyfer TGAU yn gostwng ymhellach yn 2017 a 2018. Y prif resymau a roddwyd dros y gostyngiad yn y niferoedd yw'r pwyslais a roddir ar bynciau gorfodol a chyflwyno Bagloriaeth Cymru sydd wedi gostwng nifer y slotiau opsiwn rhydd. Mae'r sefyllfa ar gyfer ieithoedd tramor modern ôl-16 yn eithriadol o fregus ac yn gwaethygu mewn hinsawdd o gyfyngiadau ariannol sy'n golygu na all ysgolion fforddio cynnal cyrsiau ar gyfer niferoedd bach iawn o ddisgyblion. Rhoddir anhawster yr arholiadau UG a Safon Uwch, cystadleuaeth gan bynciau eraill, a'r gronfa lai o ddisgyblion TGAU i'w denu fel rhesymau dros y niferoedd gostyngol o ddisgyblion sy'n astudio ieithoedd modern ôl-16.

Ceir bygythiad pellach i ddarpariaeth ieithoedd tramor modern gan brinder sylfaenol o athrawon, sefyllfa sy'n debygol o waethygu'n ddifrifol os bydd y cyflenwad o athrawon o wledydd eraill yr UE yn dod i ben ar ôl Brexit - mae tua 34 y cant o ysgolion yn dibynnu ar athrawon o'r fath i addysgu ieithoedd tramor modern. Mae'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n astudio'r pwnc dros nifer o flynyddoedd wedi golygu bod y rhan fwyaf o adrannau ieithoedd tramor modern yn fach iawn, gan gynnwys dim ond un neu ddau athro, ac mae rhai ysgolion yn dibynnu ar athrawon nad ydynt wedi'u cymhwyso yn y pwnc i bontio bylchau. Gall niferoedd bach sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern ac adrannau bach sy'n dibynnu ar athrawon anghymwys neu ran amser arwain at ddirywiad yn y pwnc oherwydd bydd arbenigedd yn diflannu, bydd yn anoddach cael gafael ar gyfleoedd hyfforddiant, a bydd proffil y pwnc yn yr ysgol yn lleihau. Unwaith y bydd disgwyliad y bydd y niferoedd ar gyfer y pwnc yn isel, gall y sefyllfa waethygu oherwydd y ffordd y caiff blociau opsiwn eu strwythuro.

Caiff yr holl ffactorau hyn eu pwysoli yn erbyn ymdrechion gorau athrawon, cydgysylltwyr rhanbarthol a phartneriaid yn y fenter *Dyfodol Byd-eang* i hyrwyddo'r pwnc. Mae'n annhebygol y caiff newid sylweddol ei gyflawni heb fynd i'r afael â'r problemau systemig amrywiol sy'n atal cyfranogiad eang yn y pwnc y tu hwnt i'r lefel fwyaf sylfaenol. Y brif broblem yw statws israddol ieithoedd tramor modern o gymharu â Chymraeg a Saesneg, prinder amser yn y cwricwlwm o gymharu ag anhawster yr arholiadau, a gwerth canfyddedig ar gyfer gyrfaedd o gymharu â phynciau eraill. Bydd angen i arweinwyr ysgolion fod yn rhan o'r broses o fynd i'r afael â'r problemau hyn ar lefel system ynghyd â datblygu'r cwricwlwm newydd.

2. Mae Dyfodol Byd-eang eisoes yn cael rhyw effaith ac mae athrawon ieithoedd tramor modern yn gwerthfawrogi gwaith y consortia rhanbarthol

Dylai Llywodraeth Cymru fod yn falch bod cynifer â 72 y cant o ysgolion a gymerodd ran yn arolwg Tueddiadau Ieithoedd eleni yn nodi eu bod wedi cael cymorth gan eu consortiwm rhanbarthol neu ganolfan ragoriaeth. Mae'r athrawon yn canmol y cymorth a gawsant ac roeddent yn benodol yn gwerthfawrogi cyfleoedd ar gyfer DPP mewn ieithoedd tramor modern a chyfleoedd i rannu arfer ag eraill wyneb yn wyneb. Mae hyn yn deyrnged i'r unigolion penodol sy'n arwain rhai o'r consortia rhanbarthol. Heb os, mae cynllun *Dyfodol Byd-eang* eisoes wedi dangos ei fod yn cael effaith lwyddiannus ac mae nifer fach o ysgolion yn nodi cynnydd yn y niferoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Lle y gwelwyd y cynnydd hwn, roedd o ganlyniad i ymdrechion diwyd yr ysgolion a'r consortia rhanbarthol.

Unwaith y bydd disgwyliad y bydd y niferoedd ar gyfer y pwnc yn isel, gall y sefyllfa waethygu oherwydd y ffordd y caiff blociau opsiwn eu strwythuro.

Y cynnig o gymorth ar gyfer datblygu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd yw'r maes y manteisiwyd arno leiaf gan ysgolion neu a werthfawrogir leiaf ganddynt hyd yma ac mae hwn yn faes allweddol i'w ddatblygu o hyd. Ar yr un pryd, mae her fwy brys, sef diogelu safle'r pwnc yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt cyn i ni gyrraedd sefyllfa lle na all ysgolion gynnig y pwnc mwyach a chaiff arbenigedd ei gollu. Mae'n amlwg y bydd angen llawer mwy o adnoddau ac ymdrech i gyflawni'r ddau ofyniad rhyng-gysylltiedig hyn.

3. Mae'r broses o ddatblygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd yng Nghymru yn cynnig cyfle unigryw i ddatblygu 'iaith driphlyg' gyda'r un statws a gwerth â 'gwyddoniaeth driphlyg'

Y brif broblem systemig i'w goresgyn yw'r pwyslais a roddir ar bynciau gorfodol a'r amser ychwanegol a roddir i Gymraeg, Saesneg a Mathemateg sy'n golygu bod prinder lle i ieithoedd tramor modern yn y cwricwlwm yng Nghymru. Mae hyn golygu bod ieithoedd tramor modern yn cystadlu â Chymraeg a Saesneg yn lle manteisio ar y cyfle i bob pwnc iaith gefnogi ei gilydd. Mae'r ymatebion i'n harolwg yn dangos faint o waith sydd i'w wneud o ran datblygu'r broses o addysgu Cymraeg a Saesneg ar lefel ysgol gynradd fel sylfaen gefnogol ar gyfer dysgu ieithoedd tramor yn ddiweddarach: gyda mwy na 60 y cant o athrawon yn ein harolwg yn ystyried nad yw'n cynnig llawer o baratoad ar hyn o bryd, os o gwbl. Dyma'r her y mae'n rhaid i ni ei goresgyn nawr wrth i'r Maes Dysgu a Phrofiad newydd Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu gael ei ddatblygu. Ceir cyfle unigryw dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i wella'r sefyllfa, gan fanteisio ar arbenigedd athrawon sydd â dealltwriaeth ddofn o botensial dwyieithrwydd i helpu i ddysgu trydedd iaith ac ieithoedd dilynol, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ond nid yn gyfyngedig iddynt o gwbl. Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr arbenigedd hwn drwy ailbennu ieithoedd tramor modern yn elfen hanfodol yn y maes cwricwlwm newydd, gan hyrwyddo cyflawni cymwysterau 'iaith driphlyg', ar ôl y model 'gwyddoniaeth driphlyg', fel rhywbeth y dylai pawb anelu ato. Drwy wneud hynny gall fanteisio ar yr awydd am newid sy'n amlwg yn apelïadau didwyll athrawon am fwy o gefnogaeth gan y cyhoedd ar gyfer eu pwnc.

Mae angen llawer mwy o ymdrech a phroffil cyhoeddus llawer uwch na'r hyn a geir ar hyn o bryd ar gyfer y trawsnewidiad sy'n angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth o wneud Cymru yn wlad 'ddwyieithog a mwy'. Rhaid manteisio ar gefnogaeth arweinwyr ysgolion, sefydliadau arbenigol a chyrrff dylanwadol eraill ledled Cymru a thu hwnt.

Mae angen llawer mwy o ymdrech a phroffil cyhoeddus llawer uwch na'r hyn a geir ar hyn o bryd ar gyfer y trawsnewidiad sy'n angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth o wneud Cymru yn wlad 'ddwyieithog a mwy'.

Pennod 1

Cyflwyniad



“Yn aml, mae sgiliau iaith yn ased gwerthfawr i fusnesau sy’n allforio ledled y byd ac, i’r bobl ifanc hynny sy’n meddu ar ieithoedd modern, gall agor cyfleoedd gwirioneddol. Mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o annog mwy o fyfyrwyr i astudio ieithoedd modern drwy ddangos pa mor ddefnyddiol y gall fod i’w gyrfaedd.”²

Pippa Morgan, pennaeth Addysg a Sgiliau CBI

Y cyd-destun polisi

Mae Cymru yn ymgymryd â phroses hirdymor i ddiwygio’r cwricwlwm a gwella ansawdd yr addysgu a’r dysgu yn ei hysgolion. Yn ddiweddar, cafodd ei hymdrechion a’r cynnydd a wnaed hyd yma eu canmol mewn adroddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a anogodd Gymru i barhau i ddatblygu er mwyn cyflawni ei nodau o ansawdd gwell a chydaddoldeb yn y system addysg.³ Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylid atgyfnerthu’r mentrau diwygio amrywiol a gynhelir a’u gwneud yn fwy cydlynol.

Mewn perthynas ag ieithoedd tramor modern, ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o’r broses o gynnal y rhaglen *Dyfodol Byd-eang*. Ei bwriad yw gwella cyflawniad ac ansawdd mewn ysgolion ac mae wedi’i chynllunio i gydblythu â diwygiadau addysgol ehangach yn y cwricwlwm, mewn hyfforddiant athrawon ac mewn sgiliau, a’u hategu.⁴ Pan gaiff y cwricwlwm cenedlaethol newydd ar gyfer Cymru ei gyflwyno o fis Medi 2021, yn unol ag argymhelliad yr Athro Graham Donaldson, bydd y pwnc a elwir yn ‘Ieithoedd Tramor Modern’ ar hyn o bryd, sydd ond yn ymddangos ar lefel uwchradd ar hyn o bryd, yn dod yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad newydd ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 16 oed. Bydd ‘Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu’ yn cwmpasu’r Gymraeg a’r Saesneg yn ogystal ag ieithoedd newydd; fodd bynnag, mae arolygon blaenorol o Dueddiadau Ieithoedd wedi amlygu’r ffaith bod y pynciau hyn yn cael eu hystyried yn gwbl ar wahân ar hyn o bryd, a nodir y bydd angen gwneud llawer o waith datblygu mewn perthynas â cham nesaf *Dyfodol Byd-eang*, er mwyn gwneud hyn yn realiti.

Ym mis Medi 2016, cyflwynwyd meysydd llafur TGAU, UG a Safon Uwch newydd ‘a wnaed yng Nghymru’ ar gyfer ieithoedd modern. Mae’r rhain yn nodweddiadol Gymreig o ran eu cynnwys ac maent wedi’u cynllunio i fodloni gofynion Bagloriaeth Cymru, sydd bellach yn orfodol ar gyfer pob disgybl ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 ac yn y Chweched Dosbarth. Mae proses i ddiwygio hyfforddiant i athrawon hefyd ar waith ac roedd ieithoedd tramor modern ymysg y pynciau sydd wedi’u cynnwys mewn cynllun i ddenu mwy o raddedigion i addysgu yng Nghymru, gyda bwrsariau o hyd at £15,000 ar gael.⁵

Mae Cymru yn ymgymryd â phroses hirdymor i ddiwygio’r cwricwlwm a gwella ansawdd yr addysgu a’r dysgu yn ei hysgolion.

²Sylwadau ar y gostyngiad yn y niferoedd sy’n astudio Safon Uwch Ieithoedd Tramor Modern, Awst 2016: <http://www.cbi.org.uk/news/talent-and-determination-on-show-a-level-results-day/>
³OECD, *The Welsh Education Reform Journey, 2017*: <http://www.oecd.org/education/wales-should-continue-reforms-to-boost-quality-and-equity-of-school-system.htm> (cyrchwyd 4/5/2017)

⁴Cynnwys am oes; Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*, 2015;

⁵<http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2017/financial-incentives-to-attract-graduates-into-teaching-announced-kirsty-williams/?skip=1&lang=cy> (cyrchwyd 2/5/17)

Ers ein harolwg diwethaf o Dueddiadau Ieithoedd, mae'r DU wedi cychwyn ar broses i ailaddasu ei chydberthynas â gweddill y byd o ganlyniad i'r bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd. Nid yw'n hysbys eto pa mor radical y bydd yr ailaddasiad hwn a sut y bydd yn effeithio ar ein cydberthynas â'r gwledydd y caiff eu hieithoedd eu haddysgu fwyaf mewn ysgolion yng Nghymru, sef Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Mae proses Brexit wedi amlygu gwahaniaethau rhwng pedair gwlad y DU o ran effaith ddisgwyliedig gadael yr Undeb Ewropeaidd ac mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Phlaid Cymru, wedi cyhoeddi Papur Gwyn yn nodi pwysigrwydd cynnal mynediad i'r Farchnad Sengl i Gymru.⁶ Yr Almaen yw marchnad fwyaf Cymru ar gyfer allforion ac mae dwy ran o dair o allforion Cymru yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd.⁷ Marchnad dwristiaeth fwyaf Cymru yw Ffrainc.⁸ Nod Cymru yw gwella ei phroffil yn rhyngwladol fel lle o'r radd flaenaf i fyw ac astudio ynddo, i ymweld ag ef ac i wneud busnes ynddo, ac mae ganddi ddi-ddordeb penodol mewn hyrwyddo ei hun fel lleoliad i gynnal digwyddiadau rhyngwladol. Canfu'r adroddiad diweddaraf gan Gomisiwn y DU ar Gyflogaeth a Sgiliau fod cyflogwyr yn nodi bod bylchau mewn sgiliau ieithoedd modern ymysg ymgeiswyr am swyddi yn fwy difrifol na'r bylchau mewn sgiliau Cymraeg llafar neu ysgrifenedig. Yn ne-ddwyrain Cymru y ceir y bylchau mwyaf difrifol ar gyfer ieithoedd tramor.⁹

Lleded y DU yn gyffredinol, canfu arolwg Populus a gynhaliwyd ar ôl pleidlais y refferendwm fod tua dwy ran o dair o ymatebwyr (63 y cant) yn ystyried bod y gallu i siarad ieithoedd tramor yn hanfodol er mwyn i'r DU gysylltu â gwledydd eraill ar ôl iddi adael yr UE.¹⁰ Mae Prifysgol Caergrawnt wedi cyhoeddi cyfres o flogiau ar bwysigrwydd ieithoedd ym Mhrydain ar ôl Brexit, ac yn y Senedd, mae'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Ieithoedd Modern wedi amlygu rhai o'r prif faterion ynghylch gallu ieithyddol Prydain a ddeilliodd o bleidlais y refferendwm. Ymysg y rhain mae'r arfer presennol o recriwtio gwladolion o'r UE i swyddi sy'n galw am sgiliau ieithyddol (yn cynnwys athrawon ieithoedd) a phwysigrwydd rhaglen addysg Erasmus+ i gefnogi ymweliadau cyfnwied a chyfnodau preswyl tramor i ddisgyblion, myfyrwyr prifysgolion, athrawon ac athrawon dan hyfforddiant.¹¹ Mae Cymru wedi bod yn rhan weithredol o raglenni cyllido'r UE sy'n cefnogi ymgysylltiad rhyngwladol a dysgu ieithoedd ac mae Erasmus+ yn elfen bwysig o'i strategaethau presennol.

Mae pryderon ynghylch y cyflenwad parhaus o athrawon o'r UE, nid dim ond ar gyfer ieithoedd tramor modern ond ar gyfer pob pwnc ysgol, wedi'u hadleisio mewn erthyglau yn y wasg ac awgrymodd hyn, ynghyd â phryderon a fynegwyd gan Estyn ynghylch y cyflenwad o athrawon ieithoedd modern yng Nghymru (gweler isod), y dylem ddefnyddio'r cyfle sy'n gysylltiedig ag arolwg Tueddiadau Ieithoedd 2017 i gasglu gwybodaeth am y graddau y mae ysgolion yng Nghymru yn dibynnu ar wladolion o wledydd eraill yn yr UE i addysgu ieithoedd tramor.¹² Roeddem hefyd yn awyddus i wybod pa effaith a welodd ymatebwyr, os o gwbl, ar y broses o addysgu ieithoedd tramor modern yn eu hysgol o ganlyniad i bleidlais y refferendwm.

Canfu'r adroddiad diweddaraf gan Gomisiwn y DU ar Gyflogaeth a Sgiliau fod cyflogwyr yn nodi bod bylchau mewn sgiliau ieithoedd modern ymysg ymgeiswyr am swyddi yn fwy difrifol na'r bylchau mewn sgiliau Cymraeg llafar neu ysgrifenedig.

⁶Sicrhau dyfodol Cymru: <http://gov.wales/newsroom/firstminister/2017/170123-brexit-plan/?skip=1&lang=cy> (cyrchwyd 4/5/2017)

⁷<http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-exports/?skip=1&lang=cy> (cyrchwyd 4/5/2017)

⁸Barclays/Conlumino, UK Tourism Dynamics: Wales, 2017

⁹<http://gov.wales/statistics-and-research/uk-commission-employment-skills-employer-skills-survey/?skip=1&lang=cy>

¹⁰<https://www.britishcouncil.org/organisation/press/language-skills-more-vital-ever> [cyrchwyd 19/2/2017]

¹¹<http://www.cam.ac.uk/research/discussion/opinion-brexit-and-the-importance-of-languages-for-britain>

¹²<https://www.britishcouncil.org/education/schools/support-for-languages/thought-leadership/appg/news/brexit-languages> [cyrchwyd 20/2/2017]

¹³<https://www.tes.com/news/school-news/breaking-news/exclusive-warning-brexit-could-drive-away-thousands-eu-teachers> [cyrchwyd 20/2/2017]

Dyfodol Byd-eang

Daw'r trydydd arolwg Tueddiadau Ieithoedd blynyddol hwn o Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru 18 mis yn unig i mewn i gynllun Dyfodol Byd-eang pum mlynedd Llywodraeth Cymru i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru, 2015-2020.¹³ Roedd y cynllun yn ymateb i bryderon cynyddol ynghylch statws gostyngol ieithoedd tramor modern mewn ysgolion yng Nghymru a dirywiad difrifol yn nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc ar lefel TGAU a Safon Uwch. Mae ei nodau yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- **Nifer sy'n astudio'r pwnc:** cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dewis astudio pynciau ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU, Safon Uwch (neu gymwysterau cyfatebol) ac mewn addysg uwch
- **Datblygiad profesiynol:** gwella addysg a phrofiad dysgu ieithoedd tramor modern i ddysgwyr 7-19 oed, gan adeiladu at system 'dwyieithog a mwy' lle bydd iaith dramor fodern yn dechrau cael ei haddysgu'n ffurfiol ym Mlwyddyn 5
- **Cyrhaeddiad:** cynnal y lefelau cyrhaeddiad presennol mewn ieithoedd tramor modern a'u gwella.

Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar flwyddyn gyntaf cynllun Dyfodol Byd-eang, lle nododd Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, ei chefnogaeth ar gyfer y weledigaeth o sicrhau y gall pob dysgwr yng Nghymru gyfathrebu'n effeithiol mewn ieithoedd eraill a gwerthfawrogi diwylliannau eraill.¹⁴ Nodwyd cynnydd sylweddol o ran gosod y sylfeini tuag at gyflawni nodau uchelgeisiol y cynllun na fu, fel yr arsylwodd Ysgrifennydd y Cabinet, erioed mor bwysig nag yn y cyd-destun allanol presennol, a ddisgrifiodd yn 'heriol'. Nodwyd amrywiaeth drawiadol o weithgarwch, yn cynnwys cynllun mentora ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3, a gaiff ei redeg mewn partneriaeth â phedair prifysgol, a oedd eisoes wedi bod yn llwyddiannus wrth alluogi un ysgol i gynnig opsiwn ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU am y tro cyntaf ers tair blynedd. Mae'r cynllun hwn bellach wedi'i ehangu i ail gam, yn cwmpasu 44 o ysgolion ac mae trydydd cam hefyd wedi'i gynllunio. Lluniwyd adnoddau dysgu iaith yn canolbwyntio ar Ewro 2016 mewn partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ac roedd y rhain yn boblogaidd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Cynhaliwyd llawer o weithgareddau a mentrau newydd, neu estynedig, gan bartneriaid yn cynnwys Llysgenhadaeth Sbaen, Sefydliad Goethe, Alliance Française, Sefydliad Confucius, Swyddfa Is-gennad yr Eidal a'r British Council. Roedd y pedwar consortia addysg rhanbarthol wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd datblygu profesiynol ar gyfer athrawon ieithoedd tramor modern ac roeddent wedi parhau i weithio'n agos gyda Llwybrau at Ieithoedd Cymru, gan hyfforddi disgyblion i fod yn Genhadon Iaith. Roedd cynlluniau peilot hefyd wedi'u hanelu at gyfuno llythrennedd digidol ag ieithoedd tramor modern a llwyddodd Cyngor Caerdydd i sicrhau cyllid Erasmus+ ar gyfer 91 o ymweliadau astudio i ysgolion mewn gwledydd eraill yn yr UE gan athrawon yng Nghymru. Nod Llywodraeth Cymru bellach yw datblygu cais Cymru gyfan ar gyfer Erasmus+ i gefnogi cam nesaf ei chynllun.

Daw'r trydydd arolwg Tueddiadau Ieithoedd blynyddol hwn o Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru 18 mis yn unig i mewn i gynllun Dyfodol Byd-eang pum mlynedd Llywodraeth Cymru i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru, 2015-2020.

Estyn

Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Estyn adroddiad ar ansawdd addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern yng Nghymru, y cyntaf ers 2009.¹⁵ Cyflwynodd dystiolaeth newydd a atgyfnerthodd lawer o'r canfyddiadau o'r arolygon o Dueddiadau Ieithoedd 2015 a 2014, a gwnaeth nifer o arsylwadau ac argymhellion pwysig hefyd:

¹³Dyfodol Byd-eang. Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru, 2015-2020 (Llywodraeth Cymru, 2015)

¹⁴<http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2016/58797598/?skip=1&lang=cy> (cyrchwyd 2/5/17)

¹⁵https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/ieithoedd-tramor-modern?_ga=2.249229575.1491163173.1496651229-674939660.1427120000 (cyrchwyd 2/5/2017)



- Er bod y gyfran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn ieithoedd tramor modern ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 wedi cynyddu (i 84 y cant), mae cyrhaeddiad mewn ieithoedd tramor modern dal yn is nag ar gyfer unrhyw bwnc arall heblaw Cymraeg Ail Iaith. Nid oes digon o amser yn cael ei roi i ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 3 - er bod Estyn yn argymhell o leiaf ddwy awr yr wythnos, dim ond awr a hanner yr wythnos ar gyfartaledd y mae ysgolion yn ei gynnig.
- Mae'r dilyniant drwy'r system o Gyfnod Allweddol 3 yn wael iawn. O'r disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 3 yn 2011, dim ond 28 y cant aeth ymlaen i astudio ar lefel TGAU yn 2013 (mae hyn yn cyfateb i gyn lleied ag un rhan o bump o'r holl ddisgyblion). O'r rhain, dim ond wyth y cant a aeth ymlaen i astudio i Safon Uwch yn 2015, llai na dau y cant o'r garfan wreiddiol.
- Mae ieithoedd tramor modern yn cael eu gwasgu oherwydd y ffocws ar bynciau craidd. Nododd bron bob pennaeth fod sicrhau cyfleoedd eang a chytbwys i ddysgwyr astudio ieithoedd tramor modern yn her oherwydd y gofyniad uwch i ddysgwyr sefyll dau arholiad ar gyfer Saesneg a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae hyn yn arbennig o heriol mewn ysgolion bach, lle mae'r pwysau i wneud lle ar yr amserlen ar gyfer nifer fawr o bynciau, yn ogystal ag amser ychwanegol ar gyfer pynciau craidd, yn golygu bod yn rhaid i ddosbarthiadau ieithoedd tramor modern yn aml gael eu cynnal ar ôl y diwrnod ysgol arferol neu yn ystod amser cinio. Argymhellodd yr adroddiad y dylai ysgolion adolygu eu trefniadau ar gyfer cynllunio ac amserlennu'r cwricwlwm er mwyn cynyddu'r nifer sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern.
- Canfu'r adroddiad fod dysgwyr yn dewis peidio ag astudio ieithoedd tramor modern am eu bod yn ystyried eu bod yn anoddach na phynciau eraill, ac oherwydd y gwerth a roddir i'r Gymraeg fel pwnc gorfodol a oedd yn golygu nad oedd llawer o le ar yr amserlen ar gyfer pynciau eraill yr oeddent am eu hastudio. Byddai rhai rhieni'n hoffi gweld dewis ehangach o ieithoedd ar gael, ac i'r Gymraeg fod yn bwnc dewisol yng Nghyfnod Allweddol 4 er mwyn rhoi mwy o ddewis i ddisgyblion.
- Mae diffyg cymhwyster ieithyddol gyda ffocws ar fusnes yn rhwystr i ysgolion sydd am annog disgyblion ar draws y sbectrwm gallu i astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt.
- Cafodd canolfannau hyfforddiant cychwynnol athrawon drafferth i recriwtio hyd yn oed hanner eu cwota o athrawon ieithoedd tramor modern dan hyfforddiant yn 2014/15. Yn aml, mae ysgolion â niferoedd bach o ddysgwyr ieithoedd tramor modern y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 3, a'r rhai yng ngorllewin Cymru, yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon ieithoedd tramor modern. Ceir pryder hefyd fod ymgeiswyr ar gyfer swyddi addysgu ieithoedd tramor modern ond yn gallu cynnig un iaith. Efallai bod y ffaith bod nifer yr ysgolion sy'n cyflwyno ymgeiswyr ar gyfer mwy nag un iaith dramor wedi gostwng o 66 y cant yn 2010 i 55 y cant yn 2015 yn gysylltiedig â hyn.
- Mae nifer yr ysgolion sy'n penodi Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor yn gostwng oherwydd toriadau i gyllidebau ysgolion.
- Mae strwythur y cynnig DPP i ysgolion wedi newid ers i CILT Cymru gau, ond mae'n rhy gynnar i ddweud pa effaith y mae'r trefniadau newydd wedi'i chael.

Byddai rhai rhieni'n hoffi gweld dewis ehangach o ieithoedd ar gael, ac i'r Gymraeg fod yn bwnc dewisol yng Nghyfnod Allweddol 4 er mwyn rhoi mwy o ddewis i ddisgyblion.

Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru

Prif ganfyddiadau arolwg Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2016 oedd bod ysgolion uwchradd yn gweithio'n galed i geisio cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc yng Nghyfnod Allweddol 4, ond bod hynny'n anodd iawn.

Nid oedd yr isafswm a argymhellwyd gan Estyn o ddwy awr o ddarpariaeth ieithoedd tramor modern yr wythnos yn cael ei fodloni mewn cynifer â 40 y cant o ysgolion, gan olygu bod llawer o ddisgyblion heb baratoi digon i ddechrau cwrs TGAU a heb hyder y byddent yn llwyddiannus. Canfu'r arolwg hefyd, yn lle ategu ei gilydd fel pynciau iaith, fod ieithoedd tramor modern a Chymraeg yn cystadlu am amser yn y cwricwlwm ac, mewn rhai achosion, fod profiadau gwael gan ddisgyblion o Gymraeg yn yr ysgol gynradd yn cael effaith negyddol ar agweddau tuag at ieithoedd tramor modern.

Cynlluniwyd yr arolwg eleni i adeiladu ar y canfyddiadau o flynyddoedd blaenorol ac i archwilio materion newydd sy'n deillio o ddatblygiadau polisi ym myd addysg ac yn ehangach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Y cwestiwn parhaus o ran y nifer sy'n astudio ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 yw thema ganolog yr arolwg eleni. Roedd gennym ddiddordeb arbennig yn y niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern ym Mlwyddyn 10, lle y gallai'r gweithgareddau niferus sydd ar waith fel rhan o *Dyfodol Byd-eang* fod yn dangos effaith yn barod. Yn arolwg 2015, roeddem wedi gofyn i athrawon ieithoedd tramor modern pa fathau o gymorth y byddent yn eu croesawu fwyaf gan y canolfannau rhagoriaeth a grëwyd fel rhan o'r cynllun. Eleni, rydym wedi archwilio'r maes hwn ymhellach ac wedi gofyn yn benodol pa gymorth a gafodd ysgolion a'r graddau y bu'n fuddiol iddynt. O ystyried natur fregus y sefyllfa ar gyfer ieithoedd tramor modern ôl-16 a nodwyd y llynedd, rydym wedi canolbwyntio eto ar faterion sy'n effeithio ar addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern ar lefel Safon Uwch.

O ystyried uchelgais cynllun *Dyfodol Byd-eang* i ddechrau addysgu iaith dramor fodern yn ffurfiol o Flwyddyn 5, casglodd arolwg y llynedd wybodaeth gan ysgolion cynradd ac uwchradd ar raddau'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2 a'r adnoddau sydd ar gael i'w hehangu. Arolwg gwaelodlin ar ddechrau'r broses o roi'r cynllun *Dyfodol Byd-eang* ar waith oedd hwn yn hytrach nag arolwg blynyddol, ac oherwydd hyn, ni thargedwyd ysgolion cynradd eto eleni. Fodd bynnag, mae addysgu iaith mewn ysgolion cynradd, a'r graddau y mae addysgu Cymraeg a Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cefnogi'r broses o ddysgu iaith newydd yn yr ysgol uwchradd, yn llinyn ymholi pwysig yn arolwg eleni. Gobeithio y caiff y canlyniadau eu defnyddio i lywio'r broses o ddatblygu Maes Dysgu a Phrofiad Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu y cwricwlwm newydd, a mentrau peilot a gaiff eu datblygu yng nghan nesaf prosiect *Dyfodol Byd-eang*.

Mae'r arolwg eleni hefyd yn cynnwys nifer o gwestiynau newydd sy'n gysylltiedig ag ymgysylltiad rhyngwladol yng nghyd-destun y DU yn gadael yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys cwestiynau ar gyflenwi a chadw athrawon ar gyfer ieithoedd tramor modern a'r graddau y mae ysgolion yng Nghymru yn dibynnu ar ddinasyddion gwledydd eraill yn yr UE fel athrawon ieithoedd tramor modern. Gwnaethom hefyd holi ysgolion ynghylch y graddau y maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngwladol ac yn benodol p'un a yw canlyniad y refferendwm wedi cael unrhyw effaith ar y broses o addysgu ieithoedd tramor modern eto. Fel mewn blynyddoedd eraill, gwnaethom hefyd gynnwys cwestiwn agored i athrawon roi sylw ar unrhyw fater arall sy'n peri pryder iddynt nad yw wedi'i gynnwys yn benodol yn yr arolwg.


Fel mewn gwaith ymchwil blaenorol, lle ceir digon o ymatebion i ddod i gasgliad sy'n ddilys yn ystadegol, rydym wedi dadansoddi canlyniadau yn ôl proffil economaidd-gymdeithasol yr ysgol, ac yn ôl cyfrwng yr addysgu.

Rydym wedi rhagflaenu canlyniadau'r arolygon â dadansoddiad o'r niferoedd diweddaraf sydd wedi sefyll arholiadau TGAU a Safon Uwch, gan amlygu tueddiadau yn y nifer sy'n astudio'r pwnc ers 2002/2003.

Y cwestiwn parhaus o ran y nifer sy'n astudio ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 yw thema ganolog yr arolwg eleni.

Pennod 2

Cynllunio'r ymchwil a chasglu data



Dyma drydydd rhifyn yr arolwg o Dueddiadau Ieithoedd mewn ysgolion yng Nghymru. Er y cynhaliwyd arolygon tebyg bob blwyddyn yn Lloegr ers 2002, cynhaliwyd yr arolwg cyntaf o ysgolion yng Nghymru yn 2014/15, gan ganolbwyntio ar ysgolion uwchradd yn unig.

Mewn ymateb i gynllun *Dyfodol Byd-eang* Llywodraeth Cymru, a'r broses o ddatblygu Cwricwlwm Cenedlaethol newydd ar gyfer Cymru a fyddai'n arwain at ddechrau addysgu iaith dramor fodern mewn ysgolion cynradd, casglodd yr ail ymarfer ymchwil yn 2015/16 wybodaeth gan ysgolion cynradd ac uwchradd am gyflwr presennol y broses o addysgu ieithoedd tramor modern a safbwyntiau ar ddatblygiadau posibl yn y dyfodol. Unwaith eto, mae ffocws y trydydd arolwg blynyddol hwn wedi'i gyfeirio'n benodol at ysgolion uwchradd gyda'r nod o roi tystiolaeth ar gyfer datblygu polisiau drwy weithredu fel sianel ddwyffordd rhwng ysgolion a'r llywodraeth. Mae'r arolwg yn nodi effaith polisiau'r llywodraeth mewn ysgolion ac, ar yr un pryd, yn adlewyrchu safbwyntiau a phrofiadau athrawon ieithoedd tramor modern wrth iddynt addasu i gyd-destunau newidiol ar gyfer addysgu iaith dramor mewn ysgolion.

Unwaith eto, mae ffocws y trydydd arolwg blynyddol hwn wedi'i gyfeirio'n benodol at ysgolion uwchradd gyda'r nod o roi tystiolaeth ar gyfer datblygu polisiau drwy weithredu fel sianel ddwyffordd rhwng ysgolion a'r llywodraeth.

Dadansoddi data arholiadau

Y ffigurau o ran y niferoedd sy'n sefyll arholiadau cyhoeddus fel TGAU a Safon Uwch a'r ffigurau cyflawniad ar eu cyfer yw un o'r ffynonellau cynhwysfawr prin o ddata cenedlaethol ar sefyllfa ieithoedd mewn ysgolion uwchradd. Felly, rhagflaenir canfyddiadau'r arolwg gan ddata arholiadau mewn perthynas ag ieithoedd tramor, gan roi ymatebion ysgolion mewn cyd-destun ehangach a galluogi dadansoddiad mwy treiddgar. Mae'r data, a ddarparwyd gan y Cyd-bwyllgor Cymwysterau, yn cynnwys gwybodaeth gan ddysgwyr o bob oedran ac o bob math o sefydliadau yn cynnwys ysgolion, colegau addysg bellach a chanolfannau i oedolion.

Datblygu'r holiaduron

Datblygwyd yr holiaduron yn ystod tymor yr hydref 2016 gan ymchwilwyr mewn ymgynghoriad â grŵp cynghorol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r British Council (Cymru), Estyn, a Phrifysgol Caerdydd/Llwybrau at Ieithoedd Cymru. Ymgynghorwyd hefyd â Llywodraeth Cymru. Lanlwythwyd y cwestiynau yn ddwyieithog ar y llwyfan arolygon ar-lein Survey Monkey a chynhaliwyd treial ar ddechrau mis Ionawr 2017.

Nod yr holiadur oedd cyfuno cwestiynau tebyg i'r rhai a welwyd yn arolygon blynyddoedd blaenorol, er mwyn olrhain tueddiadau dros amser, gyda rhai cwestiynau newydd yn taflu goleuni ar faterion na chawsant eu harchwilio o'r blaen. Y cwestiynau a oedd yn dilyn ymlaen o flynyddoedd blaenorol oedd:

- P'un a oedd pob disgybl, neu bron bob disgybl, yn astudio iaith dramor drwy gydol Cyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7 i 9)
- Pa gyfran o ddisgyblion, mewn ysgolion â phroffiliau gwahanol, sy'n astudio iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 4, a ph'un a yw hyn wedi newid dros y tair blynedd ddiwethaf
- Faint o slotiau ar gyfer dewisiadau opsiwn rhydd sydd gan ddisgyblion ar gyfer cyrsiau TGAU, heb gyfrif pynciau gorfodol
- P'un a chaiff unrhyw ddisgyblion eu hatal rhag astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4
- Y graddau y mae ysgolion uwchradd yn ymgysylltu â'r Canolfannau Rhagoriaeth a grëwyd fel rhan o gynllun Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru, a'r budd maent yn ei gael neu'n gobeithio ei gael ganddynt
- Cyfranogiad athrawon ieithoedd tramor mewn DPP
- P'un a yw ysgolion uwchradd mewn cysylltiad â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo mewn perthynas â dysgu ieithoedd tramor modern
- Tueddiadau presennol ysgolion o ran y nifer sy'n astudio ieithoedd tramor ôl-16
- Y rhesymau pam y mae'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern yn cynyddu/lleihau ôl-16

Nod y cwestiynau newydd oedd archwilio'r canlynol:

- Materion sy'n ymwneud â chyflenwi a recriwtio athrawon:
 - o Maint a chyfansoddiad adrannau ieithoedd tramor modern mewn ysgolion
 - o Y graddau y mae ysgolion yng Nghymru yn dibynnu ar athrawon ieithoedd tramor modern o wledydd eraill yn yr UE
 - o Pa mor hawdd ydyw i ysgolion recriwtio a chadw athrawon ieithoedd tramor modern safonol
 - o P'un a yw ysgolion yn cyflogi neu p'un a ydynt erioed wedi cyflogi Cynorthwywyr Iaith Dramor a'r effaith a gawsant ar amrywiaeth o feysydd yn eu barn nhw
- Y graddau y mae athrawon ieithoedd tramor modern o'r farn bod addysgu Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd yn paratoi disgyblion ar gyfer dysgu iaith newydd yng Nghyfnod Allweddol 3
- P'un a yw penderfyniad y DU i adael yr UE wedi cael unrhyw effaith ar y broses o addysgu ieithoedd tramor modern
- Y graddau y mae ysgolion yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad rhyngwladol, fel teithiau tramor neu gysylltiadau ag ysgolion partner tramor.

Casglu data

Ym mis Ionawr 2017, anfonwyd gwahoddiad dros e-bost i gwblhau'r holiadur ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg i'r 210 o ysgolion uwchradd gan Gyfarwyddwr y British Council yng Nghymru, wedi'i gyfeirio at benaethiaid ieithoedd tramor modern.

Anfonwyd nifer o e-byst atgoffa i'r ysgolion na wnaethant ateb, gan nodi mai diwedd tymor y gwanwyn oedd y dyddiad cau ar gyfer ymatebion. Yna, cafodd ysgolion na wnaethant ateb alwad ffôn gan staff dwyieithog a allai esbonio diben a phwysigrwydd yr arolwg, a threfnu i fersiynau pdf o'r holiaduron gael eu hanfon at y sawl yr oedd yn well ganddynt ymateb drwy e-bost neu gopi caled. Trosglwyddwyd yr ymatebion hyn i gronfa ddata Survey Monkey yn ddiweddarach.

Ymatebodd cyfanswm o 118 o ysgolion uwchradd, gan gynhyrchu cyfradd ymateb o 56 y cant. Roedd hyn ychydig yn is na'r hyn a gyflawnwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond roedd dal yn ddigon i gynrychioli proffil cenedlaethol ysgolion uwchradd yng Nghymru yn gyffredinol. Cymharwyd y sampl a gyflawnwyd â'r boblogaeth ysgolion genedlaethol, gan ddangos bod yr ysgolion a ymatebodd yn cyfateb yn agos i ysgolion yn genedlaethol o ran dosbarthiad rhanbarthol, ystod oedran disgyblion a'r math o ysgol. O ran cyfrwng yr addysgu, roedd ysgolion cyfrwng Saesneg wedi'u tangynrychioli ac roedd ysgolion dwyieithog wedi'u gorgynrychioli i ryw raddau - ceir manylion llawn yn yr Atodiad.

Ymatebodd cyfanswm
o 118 o ysgolion
uwchradd, gan
gynhyrchu cyfradd
ymateb o 56 y cant.

Dadansoddi'r data

Roedd gan ymchwilyr ddiddordeb mewn ymchwilio i unrhyw batrymau yn yr ymatebion i'r arolwg yn ôl nodweddion gwahanol ysgolion yn cynnwys statws economaidd-gymdeithasol (yn seiliedig ar gyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, rhanbarth, math o ysgol a chyfrwng yr addysgu). Fodd bynnag, mae'r sampl gymharol fach yn golygu, o'i dadansoddi ymhellach, bod nifer yr ysgolion ym mhob is-sampl yn rhy fach i ddarparu unrhyw ddata cadarn ar yr amrywiadau yn ymatebion gwahanol fathau o ysgolion. Er hyn, dadansoddwyd yr ymatebion i nifer o gwestiynau fel hyn, a nodwyd sylwadau yn y testun lle gellir canfod unrhyw batrwm.

Pennod 3

Data arholiadau ysgolion yng Nghymru



Daw'r ffigurau a ddangosir isod o ystadegau'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau ar nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau a gyhoeddir ym mis Awst bob blwyddyn ac maent yn cwmpasu nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU a Safon Uwch bob blwyddyn, yn cynnwys disgyblion o ddarparwyr addysg bellach, addysg i oedolion ac addysg wirfoddol.

Mae'r ffigurau cynharaf sydd ar gael ar gyfer 2001, yn achos Safon Uwch, a 2002, yn achos TGAU, ac mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer haf 2016.

TGAU


Wrth gyhoeddi'r canlyniadau ar gyfer haf 2016 yng Nghymru, nododd y Cyd-bwyllgor Cymwysterau ostyngiad o 10.4 y cant yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Ffrangeg o gymharu â 2015, gostyngiad o 17.7 y cant yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Sbaeneg ond cynnydd o 18.8 y cant yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Almaeneg.¹⁶ Cynyddodd nifer y disgyblion a safodd arholiadau 'ieithoedd Eraill' un y cant (sy'n cyfateb i chwe ymgeisydd). Mae'r gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Ffrangeg yn atgyfnerthu tueddiad hirdymor. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn nifer y disgyblion a safodd arholiadau Sbaeneg, sydd, hyd yma, wedi bod yn fwy gwydn nag ieithoedd tramor eraill, yn golygu bod y pwnc ar ei lefel isaf ers degawd. I'r gwrthwyneb, er bod y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Almaeneg yn gwneud iawn am y gostyngiad rhwng 2014 a 2015, nid yw'n cynyddu'r niferoedd ar gyfer y pwnc y tu hwnt i'r lefel a welwyd yn 2014.

Dengys dadansoddiad o'r tueddiadau yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau ers 2002 mai ychydig dros hanner y disgyblion (52 y cant) a safodd arholiadau TGAU ieithoedd tramor modern yn 2002 sy'n eu hastudio bellach - mae cyfanswm nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau ieithoedd tramor modern wedi gostwng o 14,630 i 7,591 dros y cyfnod o 15 mlynedd. Er bod yn rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun gostyngiad o 13 y cant yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU yn gyffredinol, mae'n golygu bod cyfran y disgyblion sy'n sefyll arholiadau ieithoedd tramor modern o gymharu â'r nifer sy'n sefyll arholiadau ym mhob pwnc wedi gostwng o bump y cant i dri y cant.

Dengys dadansoddiad o'r tueddiadau yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau ers 2002 mai ychydig dros hanner y disgyblion (52 y cant) a safodd arholiadau TGAU ieithoedd tramor modern yn 2002 sy'n eu hastudio bellach

¹⁶Y Cyd-bwyllgor Cymwysterau, *Wales GCSE Media Release*, 23 Awst 2016.


FFIGUR 1: NIFER Y DISGYBLION A SAFODD ARHOLIADAU TGAU IEITHOEDD TRAMOR MODERN YNG NGHYMURU, 2002-2016



Nifer y disgyblion a safodd arholiadau TGAU mewn ieithoedd tramor modern yn ôl rhyw

Mae llawer mwy o ferched na bechgyn yn ymgeisio ym mhob pwnic iaith dramor, gan gyfrif am 61 y cant o'r holl ddisgyblion sy'n sefyll yr arholiadau - yr un cyfrannau yn union a nodwyd yn 2002. Ar gyfer arholiadau Ffrangeg a Sbaeneg y ceir y nifer fwyaf o ymgeiswyr sy'n ferched, ac ar gyfer arholiadau 'ieithoedd Eraill' y ceir y nifer leiaf:

FFIGUR 2: Y GYMHAEB O YMGEISWYR SY'N FERCHED A BECHGYN, PYNCIAU IEITHOEDD MODERN, 2016



leithoedd eraill

Yn y categori 'leithoedd eraill' gall fod 16 o ieithoedd tramor modern eraill, yn ogystal â Gwyddeleg, Lladin a Groeg Hynafol, a gynigir ar lefel TGAU ar hyn o bryd; fodd bynnag, ni all y Cyd-bwyllgor Cymwysterau roi dadansoddiad o'r rhain ar gyfer Cymru gan fod y niferoedd yn fach iawn. Mae'n debygol bod llawer o'r niferoedd yn y categori 'leithoedd Eraill' yn dod o'r sectorau addysg bellach, addysg i oedolion ac addysg wirfoddol gan fod canlyniadau arolygon blaenorol o Dueddiadau leithoedd yn dangos mai prin iawn yw'r ieithoedd heblaw am Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg a addysgir mewn ysgolion yng Nghymru.

Data gan Ystadegau Cymru

Yn wahanol i'r Adran Addysg yn Lloegr, nid yw Ystadegau Cymru yn cyhoeddi data ar gyfran y garfan 15 oed sy'n astudio gwahanol bynciau. Fodd bynnag, maent yn cyhoeddi niferoedd crai, fel a ganlyn:

FFIGUR 3:

Pwnc	Nifer yr ymgeiswyr 15 oed, 2015	2016
Ffrangeg	4,793	4124
Almaeneg	1,024	1,072
Sbaeneg	1,745	1,252
leithoedd tramor modern eraill	394	443
Pob Iaith Dramor Fodern	7,956	6,891
Hanes	11,667	10,820
Gwyddoniaeth Ychwanegol	11,927	11,885
Mathemateg	34,871	33,301

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15only-by-subjectgroup>

Mae'r data hyn yn dangos bod nifer y disgyblion 15 oed sy'n astudio pob pwnc ieithoedd tramor modern gyda'i gilydd (yn cynnwys 'leithoedd Eraill') yn 2016 yn llai na dwy ran o dair o'r nifer sy'n astudio Hanes (64 y cant) neu Wyddoniaeth Ychwanegol (58 y cant) a dim ond 21 y cant o'r nifer sy'n astudio Mathemateg. Mae'r anghyfartaledd hwn wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Safon Uwch


Mae nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern bellach mor isel fel bod hyd yn oed amrywiadau bach yn nifer yr ymgeiswyr o flwyddyn i flwyddyn yn ymddangos yn ogwydd canrannol mawr. Yn 2015, gwelwyd cynnydd yn nifer y disgyblion a safodd arholiadau Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern, heblaw am Ffrangeg, gyda Sbaeneg yn cofnodi naid o 31 y cant, sy'n gwneud iawn yn rhannol am y gostyngiad mawr mewn Sbaeneg ac Almaeneg rhwng 2013 a 2014. Fodd bynnag, collwyd y cynnydd hwn yn 2016, gyda gostyngiad cyffredinol o 10 y cant yn nifer y disgyblion a safodd arholiadau ieithoedd tramor modern. Sbaeneg gafodd y gostyngiad mwyaf yn 2016, gydag ailaddasiad o -26 y cant ar ôl y cynnydd trawiadol y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd gostyngiad pellach o 10 y cant yn y nifer a safodd arholiadau Ffrangeg a thri y cant yn y nifer a safodd arholiadau ieithoedd eraill. Yr unig gynnydd a welwyd oedd yn y nifer a safodd arholiadau Almaeneg, o'r hyn sy'n sylfaen isel iawn bellach, gyda dau ymgeisydd ychwanegol yn cyfrif am gynnydd o ddau y cant.

Fel y nodwyd mewn arolygon Tueddiadau leithoedd blaenorol, gwelwyd gostyngiad mawr yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch mewn pynciau ieithoedd tramor modern ers 2006. Er bod nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau pynciau Safon Uwch wedi cynyddu saith y cant ers 2001, mae'r nifer ar gyfer ieithoedd tramor modern wedi gostwng 44 y cant.

Er bod nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau pynciau Safon Uwch wedi cynyddu saith y cant ers 2001, mae'r nifer ar gyfer ieithoedd tramor modern wedi gostwng 44 y cant.

Bellach, mae nifer y rhai sy'n sefyll arholiadau Ffrangeg yn llawr llai na hanner (44 y cant) lefel 2001, ac mae Almaeneg wedi colli dwy ran o dair o'i niferoedd dros yr un cyfnod (-66 y cant). Er gwaethaf y cynnydd yn y niferoedd TGAU dros yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o 29 y cant yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch Sbaeneg ers 2001. Dim ond 'leithoedd Eraill' sy'n dangos cynnydd, gyda'r niferoedd yn codi o gyn lleied â 47 yn 2001 i 233 y llynedd (mwy nag Almaeneg a Sbaeneg). Mae'n fwyaf tebygol bod hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru nad Cymraeg na Saesneg yw iaith eu cartref.


FFIGUR 4: NIFER Y DISGYBLION A SAFODD ARHOLIADAU SAFON UWCH MEWN IEITHOEDD TRAMOR MODERN YNG NGHYMURU, 2001-2016



Nifer y disgyblion a safodd arholiadau Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern yn ôl rhyw

Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau ar gyfer Safon Uwch yn fwy nag ar gyfer TGAU, gyda 66 y cant o'r disgyblion sy'n sefyll arholiadau mewn pynciau ieithoedd tramor modern yn ferched. Eleni, Ffrangeg yw'r iaith lle gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf rhwng y rhywiau, gyda 73 y cant o'r ymgeiswyr yn ferched, yna Sbaeneg gyda 70 y cant o ymgeiswyr sy'n ferched. Mae gan Almaeneg gyfran uwch o fechgyn (41 y cant) ac mae 'leithoedd eraill' yn dangos patrwm mwy cyfartal rhwng y rhywiau (45 y cant yn fechgyn, 55 y cant yn ferched).

FFIGUR 5: Y GYMHAEB O YMGEISWYR SY'N FERCHED A BECHGYN, PYNCAU IEITHOEDD MODERN, 2016



leithoedd eraill


Fel y nodwyd mewn arolygon blaenorol o Dueddiadau leithoedd, nid yw'r 'leithoedd Eraill' fel arfer yn cynnwys ieithoedd a addysgir fel pynciau prif ffrwd mewn ysgolion yng Nghymru. Efallai eu bod yn dod o'r sector AB neu addysg i oedolion, neu'n ddisgyblion sydd â mynediad i ieithoedd penodol yn eu cartrefi a'u cymunedau ac sy'n paratoi ar gyfer arholiadau y tu allan i'r prif ddiwrnod ysgol. Ar hyn o bryd, cynigir cyfanswm o 17 o ieithoedd eraill yn ogystal â'r tair prif iaith Ewropeidd ar lefel Safon Uwch, ond nid yw'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau yn dadansoddi'r niferoedd hyn ar gyfer Cymru yn unig, heblaw am nodi na safodd neb yr arholiad ar gyfer Gwyddeleg.

Fel y nodwyd mewn arolygon blaenorol o Dueddiadau leithoedd, nid yw'r 'leithoedd Eraill' fel arfer yn cynnwys ieithoedd a addysgir fel pynciau prif ffrwd mewn ysgolion yng Nghymru.

Niferoedd Uwch Gyfrannol

Er bod y niferoedd sy'n sefyll arholiadau UG yn rhagfynegydd gwael ar gyfer y niferoedd sy'n sefyll arholiadau U2, mae'n bosibl mesur rhai tueddiadau o'r ffigurau. Safodd 10 y cant yn llai arholiadau UG Ffrangeg yn 2016 o gymharu â 2015, a safodd 20 y cant yn llai arholiadau UG Almaeneg. Fodd bynnag, gwelwyd 13 y cant o gynydd ar gyfer Sbaeneg. Gyda gostyngiad bach yn y nifer sy'n astudio 'leithoedd Eraill', mae hyn yn rhoi gostyngiad cyffredinol o chwech y cant.

FFIGUR 6: NIFER Y DISGYBLION A SAFODD ARHOLIADAU UG IEITHOEDD TRAMOR MODERN, 2015 A 2016



Mae'n ddiddorol nodi ar gyfer pob iaith dramor fodern, ond yn enwedig ar gyfer Sbaeneg ac Almaeneg, bod y gymhareb merched i fechgyn hyd yn oed yn uwch ar gyfer UG nag ydyw ar gyfer Safon Uwch. Mae hyn yn awgrymu bod y bechgyn hynny sy'n astudio iaith ar gyfer UG yn fwy tebygol o barhau i'w hastudio i U2 o gymharu â'r merched.

FFIGUR 7:

2016	Cyfran yr ymgeiswyr sy'n fechgyn ar gyfer UG	Cyfran yr ymgeiswyr sy'n fechgyn ar gyfer Safon Uwch
Ffrangeg	28%	27%
Almaeneg	34%	41%
Sbaeneg	24%	30%
Ieithoedd eraill	44%	45%
Pob iaith Dramor Fodern	30%	34%

Pennod 4

Canfyddiadau'r arolwg



Y nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4

Pa gyfran o'r disgyblion sy'n astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 ar hyn o bryd?

Llai nag un o bob pedwar disgybl yn y mwyafrif helaeth o ysgolion sy'n astudio iaith dramor hyd at TGAU - 71 y cant ym Mlwyddyn 11 a 73 y cant ym Mlwyddyn 10. Mae'r dystiolaeth bod mwy o ysgolion ym mand isaf y cyfraddau ar gyfer y sawl sy'n astudio ym Mlwyddyn 10 nag ar gyfer Blwyddyn 11 yn dangos bod y sefyllfa'n gwaethgu yn hytrach na gwella. Gellir creu darlun tebyg o'r ffigurau ar gyfer ysgolion lle mae mwy na 25 o'r disgyblion yn astudio iaith dramor fodern: 29 y cant ar gyfer Blwyddyn 11 a 27 y cant ar gyfer Blwyddyn 10.


Llai na 10 y cant o ddisgyblion sy'n astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4 mewn tua un rhan o dair o ysgolion. Ar gyfer Blwyddyn 11, mae tua 31 y cant o'r ysgolion yn y categori isaf hwn, ond ar gyfer Blwyddyn 10, mae'r gyfran hon yn codi i 36 y cant, sy'n dangos bod y sefyllfa wedi gwaethgu yn ôl y mesur hwn hefyd.

Mewn lleiafrif bach iawn o ysgolion (tua un o bob ugain), mae mwy na hanner y disgyblion yn astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod cyfran y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern ar gyfer TGAU yn debygol o ostwng ymhellach rhwng 2017 a 2018.

Llai nag un o bob pedwar disgybl yn y mwyafrif helaeth o ysgolion sy'n astudio iaith dramor hyd at TGAU

FFIGUR 8: YSGOLION Â CHYFRANAU AMRYWIOL O DDISGYBLION SY'N ASTUDIO IAITH YM MLYNYDDOEDD 10 AC 11



Mae'r dystiolaeth ansoddol a roddwyd gan ymatebwyr i'n harolwg yn atgyfnerthu'r sefyllfa a ddatgelwyd gan y data meintiol. Dim ond un ymatebydd a nododd fod nifer iach yn astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4:

'Mwy na 40 y cant. Mae hyn yn gyson dros y blynyddoedd.'

Fodd bynnag, mae un arall, sydd â niferoedd bach, yn nodi y cafwyd rhywfaint o welliant rhwng Blynyddoedd 10 ac 11:

'Mae 20 o fyfyrwyr ym mlwyddyn 10 a 10 ym mlwyddyn 11.'

Mae'r holl ymatebwyr eraill yn disgrifio sefyllfa lle ceir gostyngiad yn nifer y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n astudio iaith dramor, lle nad oes unrhyw ddisgyblion mwyach yn astudio iaith dramor fodern hyd at TGAU neu lle mae cyn lleied o ddisgyblion yn dewis iaith fel na all yr ysgol fforddio cynnal grŵp ieithoedd tramor hyd at TGAU:

'Rydym yn cynnig dwy iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 - Ffrangeg a Sbaeneg. Mae llai o blant yn dewis dilyn dwy iaith bellach.'

'Dim ond dau opsiwn sydd gan ddisgyblion. Gwnaeth y disgyblion eu dewis, ond nid oedd hyn yn hyfyw yn ariannol.'

'Nid oes unrhyw ddisbarthiadau TGAU (Blynyddoedd 10 ac 11) ar hyn o bryd.'


Sut mae'r nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2017 yn cymharu â'r ffigurau o 2016?

Rhwng 2016 a 2017, cododd cyfran yr ysgolion lle mae llai na 10 y cant o'r disgyblion yn astudio ieithoedd tramor modern ym Mlwyddyn 10 o lai nag un chwarter (24 y cant) i fwy nag un rhan o dair (36 y cant). Er bod cyfran yr ysgolion lle mae mwy na 50 y cant o'r disgyblion yn astudio iaith wedi dyblu, mae nifer yr ysgolion lle mae mwy na hanner y disgyblion yn astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 yn fach iawn o hyd, tua chwech y cant o'r cyfanswm. Gostyngodd cyfran yr ysgolion yn y ddau fand canol (25-49 y cant a 11-24 y cant), gan ddangos tuedd ar i lawr. Mae'r darlun sy'n cymharu bandiau ar gyfer y nifer sy'n astudio ym Mlwyddyn 11 bron yr un fath, felly ni chânt eu dangos yma. Rhwng 2016 a 2017, cafwyd gostyngiad o bum pwynt canrannol yng nghyfran yr ysgolion lle mae mwy na chwarter y disgyblion yn astudio iaith ym Mlwyddyn 10 (o 32 y cant i 27 y cant), a gostyngiad o bedwar pwynt canrannol mewn perthynas â Mlwyddyn 11 (o 30 y cant i 26 y cant).

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y bydd cyfran y disgyblion sy'n astudio iaith yn 2017 yn is nag ar gyfer 2016, ac yn parhau i ostwng yn 2018.

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y bydd cyfran y disgyblion sy'n astudio iaith yn 2017 yn is nag ar gyfer 2016, ac yn parhau i ostwng yn 2018.


FFIGUR 9: YSGOLION Â CHYFRANAU AMRYWIOL O DDISGYBLION SY'N ASTUDIO IEITHOEDD TRAMOR MODERN YM MLWYDDYN 10, 2016 A 2017





Caiff y canfyddiadau hyn eu cadarnhau gan ymatebion ysgolion i'r cwestiwn 'sut mae'r cyfrannau hyn yn cymharu â'r llynedd?' Mewn perthynas â Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11, mae mwy o ysgolion yn nodi gostyngiadau na chynnydd mewn niferoedd. Fodd bynnag, un arwydd calonogol yw bod cyfran uwch o ysgolion yn nodi cynnydd o gymharu Blwyddyn 10 â Blwyddyn 11, gyda 21 y cant ym Blwyddyn 11, o gymharu â 30 y cant ym Blwyddyn 10.

FFIGUR 10: YSGOLION A NODODD NEWIDIADAU YNG NGHYFRAN Y DISGYBLION SY'N ASTUDIO IEITHOEDD TRAMOR MODERN YM MLYNYDDOEDD 10 AC 11



Mae ein hymatebwyr yn rhoi tystiolaeth ansoddol o rai o'r ymgyrchoedd llwyddiannus i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio iaith dramor fodern i lefel TGAU yn ogystal ag esboniadau posibl ar gyfer rhai o'r gostyngiadau mawr yn niferoedd y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor a welwyd mewn llawer o ysgolion. Mae'r sawl a roddodd sylwadau ar gynnydd yn eu hysgolion yn nodi:

'Rydym yn falch na chafwyd unrhyw ostyngiad mewn niferoedd, ond mae llawer o waith caled wedi mynd i gynnal y niferoedd: siaradwyr allanol; teithiau; cymryd rhan mewn digwyddiadau.'

'Rydym yn cynnig cwrs TGAU Ffrangeg, cwrs TGAU Sbaeneg a chwrs NVQ Lefel 2 Sbaeneg ar gyfer Busnes, sy'n helpu i ddenu myfyrwyr i'r adran. Mae disgyblion Blwyddyn 9 hefyd yn cael gwersi Mandarin.'

Mae'r sawl sy'n gweld gostyngiad yn nifer y disgyblion ar gyfer ieithoedd tramor modern yn nodi'r pwyslais a roddir ar bynciau gorfodol, yn enwedig Cymraeg, nad yw'n gadael llawer o le nac awydd i astudio iaith arall:

'Mae Bagloriaeth Cymru gorfodol a Chymraeg gorfodol wedi lleihau'r opsiynau TGAU yn sylweddol ac mae llai o ddisgyblion bellach yn dewis iaith. Rydym yn rhagweld y bydd yn lleihau hyd yn oed yn fwy y flwyddyn nesaf.'

'Mae Cwrs Cymraeg Llawn Gorfodol wedi atal rhai disgyblion rhag astudio iaith arall.'

'Nid yw'n helpu mai dim ond 3 dewis sydd gael i ddisgyblion nawr gan fod cynifer o bynciau gorfodol. Mae'n gystadleuol iawn.'

Mewn un ysgol o leiaf, nodir bod uwch reolwyr yn amlwg yn ystyried bod y Gymraeg yn gyfystyr ag iaith dramor fodern, heb amlygu buddiannau ychwanegol astudio iaith dramor:

Mae'r sawl sy'n gweld gostyngiad yn nifer y disgyblion ar gyfer ieithoedd tramor modern yn nodi'r pwyslais a roddir ar bynciau gorfodol, yn enwedig Cymraeg, nad yw'n gadael llawer o le nac awydd i astudio iaith arall

'Mae'r Uwch Dim Arwain yn cynghori disgyblion i ddewis iaith ar lefel TGAU, ond maent yn dweud wrthynt fod Cymraeg yn iaith dramor fodern, felly bydd rhai disgyblion yn parhau i astudio Cymraeg gan eu bod wedi gwneud hynny ers yr ysgol gynradd.'

Ar sail y sampl hon, nid oes unrhyw gydbertynas sy'n arwyddocaol yn ystadegol rhwng y nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yr ysgol yn ôl data prydau ysgol am ddim. Gwnaethom ddadansoddi proffiliau'r ysgolion a nododd gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4, ond ni welwyd unrhyw wahaniaethau o ran consortiwm rhanbarthol, cyfrwng yr addysgu na strwythur llywodraethu'r ysgolion. Mae'r ysgolion a nododd gynnydd wedi'u rhannu ar draws consortia, cyfryngau iaith a strwythurau llywodraethu gwahanol.

Sawl slot y mae ysgolion yn eu cynnig ar gyfer dewisiadau opsiwn rhydd ar lefel TGAU?

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos bod y mwyafrif helaeth o ysgolion (78 y cant) yn cynnig tri dewis opsiwn rhydd:

FFIGUR 11: NIFER Y DEWISIADAU OPSIWN TGAU RHYDD A GYNIGIR GAN YSGOLION

Mwy na 4	1.7%
4	7.8%
3	78.4%
2	6.9%
1	3.4%
Dim/Ddim yn berthnasol	1.7%

Mae sylwadau ein hymatebwyr yn dangos sefyllfa gymhleth lle mae llawer o ysgolion wedi gostwng nifer y dewisiadau opsiwn TGAU rhydd ers cyflwyno Bagloriaeth Cymru, er enghraifft:

'Yn flaenorol roedd pedwar bloc opsiwn ond mae un bloc wedi'i ddileu bellach ers cyflwyno Bagloriaeth Cymru, y dyrennir yr un faint o amser ag un opsiwn iddi.'

'Cafodd un ei ddileu oherwydd Bagloriaeth Cymru.'

'Mae Bagloriaeth Cymru yn orfodol bellach. Mae'r niferoedd sy'n astudio Ffrangeg wedi gostwng ers hynny.'

Fodd bynnag, mae ieithoedd tramor modern yn wynebu heriau ychwanegol drwy orfod 'cystadlu' â phynciau poblogaidd fel gwyddoniaeth driphlyg neu addysg gorfforol, cerddoriaeth a drama fel mae'r sylwadau canlynol yn ei ddangos:

'Mae Ffrangeg a Sbaeneg yn cystadlu yn erbyn celf, drama a cherddoriaeth.'

'Mae pedwaredd colofn opsiwn hefyd ond nid yw'n ddewis rhydd. Mae ar gyfer gwyddoniaeth driphlyg, Saesneg a mathemateg ychwanegol.'

'Roedd gwyddoniaeth driphlyg yn un o'r blychau opsiwn felly gwnaeth y rhan fwyaf o'r disgyblion ddewis hwnnw! Felly, dim ond dau sydd ar ôl.'

'Eleni, mae Ffrangeg yn erbyn hanes, a Sbaeneg yn erbyn daearyddiaeth. Mae'r ddau bwnc hyn yn rhai cryf yn draddodiadol gyda llawer o ddisgyblion yn eu dewis ar gyfer Safon Uwch.'

Mae llawer o ysgolion wedi gostwng nifer y dewisiadau opsiwn TGAU rhydd ers cyflwyno Bagloriaeth Cymru

Nododd lleiafrif o ymatebwyr nad yw eu hysgol yn gweithredu system opsiynau:

'Mae ganddynt ddewis rhydd. Nid oes colofnau opsiwn.'

'Nid oes rhaid i ddisgyblion ddewis mewn colofnau; yn hytrach maent yn nodi eu tri hoff ddewis ac yna'n aros i gael eu gosod mewn grwpiau opsiwn.'

Gwnaethom ddadansoddi'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ôl nifer y disgyblion oedd yn astudio'r pwnc ym Mlwyddyn 10 a gwelsom fod dwy o'r chwe ysgol gyda mwy na 50 y cant yn astudio'r pwnc yn cynnig pedwar slot opsiwn TGAU rhydd; fodd bynnag, 10 y cant neu lai o ddisgyblion sy'n astudio'r pwnc yn y pedair ysgol arall sy'n cynnig pedwar slot opsiwn, sy'n dangos nad yw nifer y slotiau opsiwn a gynigir yn ddigonol i esbonio pam bod nifer fach o ddisgyblion yn astudio'r pwnc. Hefyd, heb wybod sawl dewis pwnc oedd gan ddisgyblion, mae'n anodd dadansoddi cydberthynas rhwng y ddau newidyn hyn.

FFIGUR 12:

Opsiyau Q3 (colofnau)					
Opsiyau Q5 (rhesi)	10% neu lai	11%-24%	25%-49%	50%-75%	Cyfanswm Terfynol
1	2	1	1		4
2	3	2	2	1	8
3	32	35	21	3	91
4	4	3		2	9
Mwy na 4	1		1		2
Dim/Ddim yn berthnasol		2			2
Cyfanswm Terfynol	42	43	25	6	116

A oes unrhyw ddisgyblion yn cael eu hatal rhag astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4?

Mae bron i ddwy ran o dair o ysgolion (62 y cant) yn darparu ar gyfer pob disgybl sydd am astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, mae mwy nag un o bob pum ysgol (21 y cant) yn trefnu dewisiadau opsiwn mewn ffyrdd sy'n atal rhai disgyblion rhag astudio ieithoedd tramor modern mewn rhyw ffordd. Mae'r ffigurau hyn yn debyg iawn i'r rhai a gyflawnwyd yn 2015, er bod y rhai o arolwg 2016 yn wahanol. Gall hyn fod oherwydd natur y sampl yn 2016.

O'r dystiolaeth ansoddol a ddarparwyd gan yr ymatebwyr i arolwg eleni, er bod y mwyafrif o ysgolion yn darparu ar gyfer pob disgybl sydd am astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4, ar yr un pryd, mae'n amlwg bod llawer o ysgolion yn mynd ati i annog disgyblion i beidio ag astudio iaith dramor os nad ydynt o'r farn y gallant gyflawni'r TGAU, er enghraifft:

'Nid oes lefel cyrhaeddiad benodol ar gyfer derbyn disgyblion. Nid ydym yn cael gwrthod neb. Er ein bod yn cynghori rhai y byddent yn cael trafferth ymdopi, maent yn tueddu i anwybyddu hyn ac yn dewis astudio'r pwnc.'

'Ni chaiff disgyblion llai abl eu hannog i astudio iaith. Mae'r Uwch Dim Arwain yn cynghori disgyblion ynghylch llwybrau dysgu priodol.'

'Mae'r Uwch Dim Arwain yn siarad â phob disgybl ym Mlwyddyn 9 ynghylch dewisiadau opsiwn. Bydd rhai disgyblion yn cael eu hannog i beidio ag astudio iaith dramor fodern os yw eu canlyniadau llythrennedd yn isel.'

Gall nifer fach o ysgolion gynnig NVQ amgen yn lle TGAU i'r disgyblion hynny sy'n mwynhau ieithoedd ond na allant gyflawni gradd dda mewn TGAU, er enghraifft:

Mae bron i ddwy ran o dair o ysgolion (62 y cant) yn darparu ar gyfer pob disgybl sydd am astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4

'Cynghorir y disgyblion sy'n mwynhau ieithoedd ond a fyddai'n cael trafferth cyflawni cymhwyster Ffrangeg TGAU i ddilyn cwrs galwedigaethol Sbaeneg ar gyfer Busnes.'

Rhoddodd un ymatebydd enghraifft o'r ffordd y gall trefn blociau opsiwn gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddewis iaith yng Nghyfnod Allweddol 4:

'Dim ond mewn un golofn y mae Ffrangeg ar gael fel opsiwn. Mae hyn yn golygu, os yw'r disgybl am astudio pwnc arall yn y golofn honno, na all ddewis Ffrangeg.'

Gall y sefyllfa hon atgyfnerthu'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc: os mai dim ond un dosbarth TGAU y mae ysgolion yn disgwyl ei gynnal, yna dim ond mewn un golofn opsiwn y bydd y pwnc yn ymddangos, gan gynnig dewis cyfyngedig iawn i ddisgyblion.

Gall y sefyllfa hon atgyfnerthu'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc: os mai dim ond un dosbarth TGAU y mae ysgolion yn disgwyl ei gynnal, yna dim ond mewn un golofn opsiwn y bydd y pwnc yn ymddangos, gan gynnig dewis cyfyngedig iawn i ddisgyblion.

FFIGUR 13: YMARFERION YSGOLION O RAN MYNEDIAD I IEITHOEDD TRAMOR MODERN I BOB DISGYBL, 2015 I 2017

	2015	2016	2017
Gall pob disgybl sydd am astudio iaith wneud hynny	61%	69%	62%
Ni all disgyblion sy'n dewis dilyn llwybrau penodol astudio iaith	13%	5%	11%
Ni all disgyblion nad ystyrir y gallant gyflawni TGAU astudio iaith	10%	12%	10%
Arall	17%	14%	17%

Mae ysgolion â lefelau is o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o nodi 'gall pob disgybl sydd am astudio iaith wneud hynny' ac mae ysgolion â lefelau uwch o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (h.y. gweithio mewn amgylchiadau lle ceir mwy o anfantais economaidd) yn fwy tebygol o nodi arferion sy'n eithrio rhai disgyblion rhag astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw'r gydberthynas hon yn arwyddocaol yn ystadegol.

Pwyntiau allweddol

- Mae'r nifer sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4 yn parhau i ostwng, ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Mae cyfran yr ysgolion y mae mwy na 25 y cant o'u disgyblion yn astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi gostwng, ac mae'r gyfran gyda llai na 25 y cant o ddisgyblion wedi cynyddu.
- Bellach, mae gan fwy nag un rhan o dair o ysgolion lai na 10 y cant o ddisgyblion Blwyddyn 10 sy'n astudio'r pwnc.
- Y prif resymau a roddwyd dros y gostyngiad yn y niferoedd yw'r pwyslais a roddir ar bynciau gorfodol a chyflwyno Bagloriaeth Cymru sydd wedi gostwng nifer y slotiau opsiwn rhydd.
- Lle mae ysgolion wedi cynyddu'r niferoedd neu o leiaf wedi'u cynnal, mae hyn oherwydd ymdrechion diwyd i hyrwyddo'r pwnc ac, mewn un achos o leiaf, drwy gyflwyno cymwysterau amgen.

Ieithoedd tramor modern ôl-16

Dim ond 70 y cant o'r ysgolion a ymatebodd sy'n darparu ar gyfer disgyblion ôl-16 ac mae pedair allan o bump o'r rhain (81 y cant) yn cynnig cyrsiau iaith ôl-16. Mae hyn yn golygu mai dim ond 66 o ysgolion, allan o sampl o 116 a atebodd y cwestiwn hwn, sy'n addysgu ieithoedd ôl-16. Mae hyn yn cyfateb i 57 y cant. Felly, mae'r sylfaen ar gyfer yr ymatebion dilynol i'r cwestiynau ar ddarpariaeth iaith ôl-16 yn llai na chant (66 ym mhob achos).

Mae'r ysgolion nad ydynt yn cynnig cyrsiau iaith ôl-16 yn dweud mai'r rheswm dros hyn yw naill ai am mai nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n astudio'r pwnc neu am fod trefniadau consortiwm ar wahân gydag ysgolion eraill ar gyfer cyrsiau ôl-16:

'Prinder disgyblion sy'n dewis ieithoedd.'

'Dim diddordeb - un neu ddau yn unig.'

'O fewn y consortiwm, caiff Ffrangeg Safon Uwch ei addysgu mewn ysgolion eraill'

'Mae'n rhaid i'r disgyblion deithio i ysgolion eraill os ydynt am astudio ieithoedd.'

'Nifer fach. Ar ôl yr ysgol, drwy gyswllt fideo. Disgyblion yn rhoi'r gorau iddi.'

Nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern ôl-16

Mae dwy ran o dair o ysgolion (65 y cant) yn dweud bod y niferoedd ar gyfer ieithoedd tramor modern ôl-16 yn gostwng, ac mae 15 y cant wedi nodi cynnydd. O gymharu â blynyddoedd blaenorol, nododd mwy eu bod wedi gweld gostyngiad (65 y cant o gymharu â 58 y cant yn 2016, ond 64 y cant yn 2015); fodd bynnag, mae mwy o ysgolion hefyd yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd (15 y cant o gymharu â chwech y cant yn 2016 a saith y cant yn 2015), gyda llai o ysgolion yn nodi niferoedd sefydlog. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r cymariaethau canrannol blynyddol hyn oherwydd y nifer fach o ysgolion sydd dan sylw.¹⁷

Cafwyd y sylwadau canlynol gan yr ymatebwyr hynny y gwelodd eu hysgolion gynydd yn nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern ar lefel UG/Safon Uwch:

'Ffrangeg a Sbaeneg - rydym wedi llwyddo i fynd o ddau i bedwar ymgeisydd ar gyfer Ffrangeg ac o ddau i chwe ymgeisydd ar gyfer Sbaeneg.'

'Ffrangeg - y grŵp mwyaf erioed o 11 o ddisgyblion UG.'

'Mae'r niferoedd sy'n astudio Sbaeneg wedi cynyddu'n ddramatig.'

'Cafwyd cynnydd cyson yn nifer y disgyblion sy'n astudio Ffrangeg ar lefel UG, eleni mae gennym saith disgybl - y nifer uchaf ers nifer o flynyddoedd.'

Mae'r mwyafrif o ymatebwyr yn nodi gostyngiad yn nifer y disgyblion ar gyfer ieithoedd tramor modern ôl-16, i'r graddau bod nifer o ysgolion yn rhoi'r gorau i gynnig ieithoedd tramor modern ar y lefel hon. Ymysg y rhesymau a roddir dros y gostyngiad mewn ieithoedd tramor modern ôl-16 mae cystadleuaeth â phynciau eraill, cyfyngiadau ariannol a lefelau isel o ddiddordeb ymhlith disgyblion:

'Ni fyddwn yn cynnig ieithoedd tramor modern i ddisgyblion chweched dosbarth y flwyddyn nesaf.'

'Cafwyd cynnydd mawr tuag at bynciau STEM [gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg] ymysg disgyblion, gyda llai yn dilyn y llwybr ieithyddol/celfyddydol.'

'Nid ydym yn cynnig Ffrangeg nac Almaeneg eleni. Nid ydym wedi cynnig Ffrangeg ers tua thair blynedd. Dyma'r flwyddyn gyntaf i ni beidio â chynnig Almaeneg UG/U2.'


'Dim ond Ffrangeg a gynigir nawr oherwydd y cyfyngiadau ariannol. Nid yw system Trisgol o gydweithredu rhwng ysgolion wedi gweithio. Yn hytrach, mae wedi cymryd dwy flynedd i nifer y disgyblion chweched dosbarth sy'n dewis Ffrangeg gynyddu.'

'Mae gormod yn astudio gwyddoniaeth a mathemateg. Gostyngiad yn y ddwy iaith.'

Mae'r ysgolion nad ydynt yn cynnig cyrsiau iaith ôl-16 yn dweud mai'r rheswm dros hyn yw naill ai am mai nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n astudio'r pwnc neu am fod trefniadau consortiwm ar wahân gydag ysgolion eraill ar gyfer cyrsiau ôl-16

¹⁷Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2015/16, t. 55.

FFIGUR 14: YSGOLION SYDD WEDI PROFI NEWIDIADAU YN NIFER Y DISGYBLION ÔL-16 SY’N ASTUDIO IEITHOEDD TRAMOR MODERN DROS Y 3 BLYNEDD DIWETHAF



Sawl disgybl sy’n astudio cyrsiau ieithoedd tramor modern ôl-16 ym mhob ysgol?

Mae’r ymatebion i’r cwestiwn hwn yn dangos bod gan 44 y cant o ysgolion lai na phum disgybl ar gyfer cyrsiau UG, a bod gan gynifer â 61 y cant o ysgolion niferoedd bach tebyg ar gyfer U2. Yn aml, mae maint y grwpiau hyd yn oed yn llai, gan fod llawer o ysgolion yn addysgu mwy nag un iaith dramor. Yn o leiaf un achos, mae’r niferoedd a roddir yn yr ymateb meintiol yn cwmpasu’r tair iaith Ewropeaidd a gynigir gan yr ysgol:

‘Mae’r niferoedd hynny yn cwmpasu’r tair iaith (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg) ar gyfer UG sy’n golygu bod gennym rai dosbarthiadau bach iawn (er enghraifft, dau ddisgybl ar gyfer Ffrangeg UG).’

Dim ond naw ysgol yn ein sampl sydd â deg neu fwy o ddisgyblion yn dewis astudio UG ac mae’r nifer hon yn gostwng i ddim ond dwy ysgol yn achos U2. Nododd un ymatebydd yn ein sampl bod angen i ddeuddeg disgybl gofrestru ar gyfer cwrs yn ei ysgol cyn y gellir ystyried ei fod yn hyfyw yn ariannol:

‘Rydym bob amser wedi cynnal niferoedd boddhaol yn UG ac U2. Yn anffodus, os oes llai na 12 o ddisgyblion, ni allwn gynnal y cwrs oherwydd diffyg cyllid. Fodd bynnag, mae ysgolion eraill yn cynnal cyrsiau gyda niferoedd llai na’r hyn oedd gennym ni.’

Fodd bynnag, mae hefyd yn glir y gall penaethiaid wneud eithriadau o ran ‘hyfywedd ariannol’ er mwyn sicrhau y gall pynciau pwysig barhau i gael eu haddysgu ar lefel UG/ Safon Uwch. Nododd un ymatebydd yr union niferoedd ar gyfer disgyblion ôl-16 yn ei ysgol:

‘Eleni: UG: neb yn astudio Almaeneg; dau yn astudio Ffrangeg. O ran Safon Uwch, mae tri disgybl yn astudio Almaeneg/tri disgybl yn astudio Ffrangeg.’

Mae ysgolion eraill yn cydweithio mewn clystyrau neu bartneriaethau er mwyn cynnal cyrsiau iaith ôl-16, er enghraifft


‘Rydym mewn clwstwr o bedair ysgol - pwy bynnag sydd â’r nifer fwyaf o ddisgyblion sy’n ennill y cwrs.’

Dim ond un ysgol sydd â mwy nag 20 o ddisgyblion ar gyfer U2, er bod ganddi lai ar gyfer UG. Mae nifer yr ysgolion sy’n nodi niferoedd bach iawn ar gyfer ieithoedd tramor modern ôl-16 wedi cynyddu ers arolwg y llynedd, lle nododd 41 y cant bod ganddynt 5 neu lai o ddisgyblion ar gyfer UG a nododd 58 bod ganddynt 5 neu lai o ddisgyblion ar gyfer U2.¹⁸ Mae cyfrannau’r ysgolion sydd â rhwng chwech a deg disgybl wedi gostwng ers y llynedd pan oedd y ffigurau yn 29 y cant ar gyfer UG ac 20 y cant ar gyfer U2.

Dim ond naw ysgol yn ein sampl sydd â deg neu fwy o ddisgyblion yn dewis astudio UG ac mae’r nifer hon yn gostwng i ddim ond dwy ysgol yn achos U2.

¹⁸Tueddiadau Ieithoedd 2015/16, t. 54.

FFIGUR 15: NIFER Y DISGYBLION SY’N ASTUDIO IEITHOEDD TRAMOR MODERN ÔL-16



Rhesymau dros y gostyngiadau/cynnydd mewn niferoedd

Mae sylwadau'r ymatebwyr yn rhoi tystiolaeth ansoddol ddefnyddiol mewn perthynas â rhai o'r rhesymau pam mae athrawon o'r farn nad yw eu disgyblion yn dewis astudio ieithoedd tramor modern ar lefel UG neu Safon Uwch. Nododd rhai ymatebwyr bod anhawster yr arholiad yn cael effaith andwyol ar nifer y disgyblion sy'n dewis astudio iaith ôl-16:

'Mae anhawster yr arholiad UG yn darbwyllo disgyblion da am na allant fforddio cael C ar lefel UG ar eu cais. Mae'r arholiadau yn ein lladd ni. Rwy'n amau a fydd llawer yn astudio ar lefel UG y flwyddyn nesaf.'

'Lefel yr anhawster. Mae'n well ganddyn nhw ddewis y pynciau haws fel y gallant gael gradd uwch er mwyn mynd i'r brifysgol.'

'Y canfyddiad bod ieithoedd yn anodd ac nad yw TGAU yn paratoi ar gyfer gofynion y cwrs UG (er y bydd hyn yn newid gyda'r TGAU newydd) a'r ffaith bod y cwrs UG yn rhy academiaidd ac nad yw'n ddigon graddedig.'

Mae eraill yn beio cystadleuaeth â phynciau eraill a gaiff eu marchnata i ddisgyblion a'u rhieni'n fwy llwyddiannus, er enghraifft:

'Mae gormod ohonynt yn astudio gwyddoniaeth a mathemateg.'

'Mae ein niferoedd wedi gostwng yn ddramatig, a bydd hyn yn parhau oherwydd y cyfyngiad ar opsiynau.'

'Maent yn credu y bydd pynciau eraill yn eu helpu i gael swyddi gwell.'

Un rheswm arall a roddir dros y niferoedd gostyngol ar gyfer ieithoedd ôl-16 yw'r ffaith bod llai o ddisgyblion yn dewis astudio iaith i lefel TGAU sydd, yn ei dro, yn arwain at ostyngiad ar lefel UG/U2 a chyrtsiau nad ydynt yn hyfyw yn ariannol, er enghraifft:

'Nifer annigonol o ddisgyblion i wneud y cwrs yn hyfyw.'

'Niferoedd gostyngol ar lefel TGAU a disgyblion yn dewis y llwybr gwyddoniaeth.'

Un rheswm olaf a nodwyd gan nifer o'r ymatebwyr dros y gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern ôl-16 yw diffyg arweinyddiaeth gan yr Uwch Dîm Arwain a'r diffyg cred yng ngwerth ieithoedd tramor. Mae rhai enghreifftiau o'r sylwadau hyn fel a ganlyn:

Un rheswm arall a roddir dros y niferoedd gostyngol ar gyfer ieithoedd ôl-16 yw'r ffaith bod llai o ddisgyblion yn dewis astudio iaith i lefel TGAU

'Nid yw ysgolion (uwch dimau rheoli) yn gweld gwerth academaidd hirdymor ieithoedd tramor modern.'

'Mae gan yr Uwch Dîm Arwain a'r llywodraethwyr ddisgwyliadau rhy uchel; mae'r gofynion yn galw am 10 neu fwy o ddisgyblion sydd yr un fath ag ar gyfer TGAU.'

Mae'r nifer fach o ysgolion sydd wedi gweld cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio iaith dramor ar lefel UG/Safon Uwch yn cynnig dau brif reswm dros eu llwyddiant. Mae'r cyntaf yn ymwneud ag ansawdd a chysondeb yr addysgu, er enghraifft:

'Athrawon parhaol a chyson yn yr adran yng Nghyfnod Allweddol 4.'

'Brwdfrydedd y staff sy'n addysgu ieithoedd tramor modern a graddau TGAU gwych.'

Ac mae'r ail reswm yn ymwneud â gallu'r adran ieithoedd tramor modern i farchnata ei phwnc yn llwyddiannus a chynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n denu'r myfyrwyr:

'Staff yn perswadio ac yn hysbysebu'r pwnc. Trefnu bod ymwelwyr yn dod i siarad â'r disgyblion ynghylch dysgu iaith ar ôl TGAU.'

'Parhad â'r athro. Niferoedd da yng Nghyfnod Allweddol 4. Cydberthynas dda â'r grŵp TGAU. Llawer o weithgareddau ychwanegol yn cael eu gwneud â'r grŵp TGAU er mwyn annog cyfranogiad.'

Pwyntiau allweddol

- Mae'r sefyllfa ar gyfer ieithoedd tramor modern ôl-16 yn edrych y gynyddol fregus, yn enwedig yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol sy'n golygu na all ysgolion fforddio cynnal cyrsiau ar gyfer niferoedd bach.
- Mae gan tua 44 y cant o ysgolion lai na phum disgybl ar gyfer cyrsiau UG, ac mae gan gynifer â 61 y cant o ysgolion niferoedd bach tebyg ar gyfer U2. Dim ond naw ysgol yn ein sampl sydd â mwy na deg disgybl yn dewis astudio UG mewn ieithoedd tramor modern ac mae'r nifer hon yn gostwng i ddim ond dwy ysgol yn achos U2.
- Rhoddir anhawster yr arholiadau UG a Safon uwch, cystadleuaeth â phynciau eraill, a'r gronfa lai o faint o ddisgyblion TGAU i'w denu fel rhesymau dros y niferoedd gostyngol o ddisgyblion sy'n dewis dilyn ieithoedd modern ôl-16. Caiff y rhain eu gwaethygu ymhellach gan y pwysau ariannol presennol ar ysgolion.
- Lle mae ysgolion wedi llwyddo i gynyddu niferoedd ar gyfer ieithoedd tramor modern ôl-16, caiff hyn ei briodoli i addysgu da a chysondeb o'r cychwyn cyntaf, yn ogystal ag ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o werth sgiliau iaith yn yr ysgol.


Staff addysgu

Cyfansoddiad adrannau ieithoedd tramor modern

Dim ond un neu ddau athro llawn amser sydd gan bron i ddwy ran o dair o adrannau ieithoedd tramor modern (64 y cant) a dim ond un athro llawn amser sydd gan fwy nag un rhan o dair ohonynt (36 y cant). Ceir llawer o ddibyniaeth ar athrawon ieithoedd tramor modern rhan amser, gyda 72 y cant o ysgolion yn cyflogi o leiaf un. Dim ond 16 y cant o ysgolion sy'n cyflogi cynorthwyrwyr ieithoedd tramor, er bod sawl ysgol yn cyflogi mwy nag un.

Ceir llawer o ddibyniaeth ar athrawon ieithoedd tramor modern rhan amser, gyda 72 y cant o ysgolion yn cyflogi o leiaf un.

FFIGUR 16: NIFER Y STAFF ADDYSGU AR GYFER IEITHOEDD TRAMOR MODERN



Gwladolion o wledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd yn y gweithlu ieithoedd tramor modern

Fel y gellir disgwyl, mae'r holl ysgolion sy'n cyflogi cynorthwyyr ieithoedd tramor yn dweud mai gwladolion o'r UE nad ydynt yn Brydeinig yw'r rhain. Fodd bynnag, mae 23 y cant o ysgolion yn cyflogi gwladolion o'r UE fel athrawon llawn amser ac mae 16 y cant yn dibynnu arnynt fel staff addysgu rhan amser.

FFIGUR 17: YSGOLION SY'N CYFLOGI GWLADOLION O'R UE NAD YDYNT YN BRYDEINIG FEL ATHRAWON IAITH

Fel athrawon llawn amser	23%
Fel athrawon rhan amser	16%
Fel cynorthwyyr ieithoedd tramor	16%

Yn gyffredinol, mae un rhan o dair o ymatebwyr (34 y cant) yn cyflogi gwladolion o'r UE nad ydynt yn Brydeinig naill ai fel athrawon iaith llawn amser neu ran amser, neu'r ddau. Mae'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Ieithoedd Modern wedi amcangyfrif bod 35 y cant o athrawon iaith ledled y DU yn wladolion yr UE o aelod-wladwriaethau eraill; mae'r ffigur hwn yn cadarnhau bod yr amcangyfrif bron yn gywir yn achos Cymru.¹⁹


Pa mor hawdd ydyw i ysgolion recriwtio a chadw athrawon ieithoedd tramor modern safonol?

Nododd bron i dri chwarter yr ysgolion (72 y cant) eu bod wedi'u staffio'n llawn gydag athrawon ieithoedd tramor modern safonol. (O ystyried dirywiad y pwnc yn ddiweddar, nid yw hyn yn syndod. Mae hon yn gyfran uwch nag yn Lloegr, lle mai dim ond 57 y cant sy'n dweud hyn, fodd bynnag, mae llawer o ysgolion yn Lloegr yn disgwyl ehangu eu darpariaeth). Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod 28 y cant wedi cael rhywfaint o anawsterau, ac mewn nifer fach o ysgolion, mae problemau cyflenwi a/neu gadw athrawon yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth neu'r broses o ddatblygu'r pwnc.

Fel y gellir disgwyl, mae'r holl ysgolion sy'n cyflogi cynorthwyyr ieithoedd tramor yn dweud mai gwladolion o'r UE nad ydynt yn Brydeinig yw'r rhain.

¹⁹Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Ieithoedd Modern, *Brexit and Languages: a checklist for government negotiators and officials*, 2016, ar gael ar-lein yn: <https://www.britishcouncil.org/education/schools/support-for-languages/thought-leadership/appg/news/brexit-languages> (cyrchwyd 14/5/2017).

FFIGUR 18: CYFLENWI A CHADW ATHRAWON IEITHOEDD TRAMOR MODERN



Mae ymatebwyr sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol am anawsterau wrth recriwtio neu gadw athrawon ieithoedd tramor modern yn nodi fel a ganlyn:

'Wrth hysbysebu swydd ieithoedd tramor modern, y duedd yw mai maes bach iawn o ymgeiswyr sy'n bodloni ein meini prawf (er enghraifft, ymgeiswyr sydd ond yn gallu cynnig Sbaeneg i Gyfnod Allweddol 3 pan fyddwn yn chwilio am rywun i addysgu hyd at Gyfnod Allweddol 5)'

'Rydym wedi profi anawsterau gyda'r broses o recriwtio athrawon i gyflenwi yn ystod cyfnod mamolaeth yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf.'

'Rydym wedi colli dau bennaeth ieithoedd tramor modern yn y gorffennol a chawsom drafferth llenwi'r swydd - cymerodd fwy o amser na'r disgwyl.'

Hefyd, mae nifer o ymatebwyr sy'n cyfeirio at brinder staff yn yr adran ieithoedd tramor modern a achosir gan ysgolion yn dewis peidio â recriwtio staff newydd yn lle rhai sy'n gadael, er enghraifft:

'Nid ydym wedi ceisio recriwtio staff ers tua wyth mlynedd - oherwydd toriadau ariannol, nid ydym wedi recriwtio staff newydd yn lle rhai sydd wedi gadael.'

'Nid yw'r uchod [blychau ticio] yn berthnasol mewn gwirionedd, am na allwn recriwtio ar hyn o bryd. Mae pwysau ychwanegol bellach i recriwtio athrawon Cymraeg.'

Soniodd nifer fach o ymatebwyr hefyd am sefyllfa lle caiff yr aelod unigol o'r adran ieithoedd tramor modern ei gefnogi gan gydweithiwr addysgu nad yw'n arbenigo yn y maes er mwyn bodloni gofynion yr amserlen ar gyfer ieithoedd tramor modern, er enghraifft:

'Mae gennym un athro Ffrangeg. Oherwydd yr amserlen, weithiau mae un wers yn ormod, sy'n ei gwneud hi'n anodd i staff ac sy'n golygu bod angen i ni ddefnyddio athro nad yw'n arbenigo yn y pwnc.'

'Mae'r athro arall yn fy adran yn addysgu wyth awr bob pythefnos ac mae'n athro daearyddiaeth gyda Safon Uwch Ffrangeg.'

'Dim ond un aelod sydd yn yr adran ieithoedd tramor modern, mae dau athro arall yn cymryd gwersi na all un eu cyflawni o fewn yr amserlen.'

Rydym wedi colli dau bennaeth ieithoedd tramor modern yn y gorffennol a chawsom drafferth llenwi'r swydd - cymerodd fwy o amser na'r disgwyl.


Cynorthwyr ieithoedd Tramor

Nododd mwy na hanner yr ysgolion (57 y cant) eu bod wedi cael profiad o gynnal cynorthwyydd ieithoedd tramor. Gofynnwyd i'r ysgolion hyn raddio'r effaith a gaiff cynorthwyr ieithoedd tramor ar agweddau amrywiol ar gynnydd disgyblion mewn ieithoedd tramor modern ac ar eu datblygiad yn ehangach.

Mae'r ymatebion meintiol yn dangos bod ysgolion, ar y cyfan, o'r farn bod cynorthwyr ieithoedd tramor yn cael effaith fawr ar draws yr amrywiaeth gyfan o ddangosyddion. Nododd mwy na naw allan o bob deg ysgol eu bod yn cael effaith 'fawr' (y mwyafrif) neu 'ganolig' o ran gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol disgyblion, safonau siarad a gwranddo ac ehangu eu geirfa a'u dealltwriaeth gyffredinol o'r iaith. Nododd bron i ddwy ran o dair o'r ysgolion fod cynorthwyr ieithoedd tramor yn cael effaith 'fawr' mewn perthynas â hyder disgyblion a nododd pedair allan o bump ysgol fod eu heffaith mewn perthynas â graddau arholiadau yn 'ganolig' o leiaf. Ym mhob maes, nododd mwy na hanner yr ysgolion bod eu heffaith yn 'ganolig' o leiaf. Y meysydd lle yr ystyriwyd iddynt gael yr effaith leiaf oedd nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc, yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16.

Nododd mwy na hanner yr ysgolion (57 y cant) eu bod wedi cael profiad o gynnal cynorthwyydd ieithoedd tramor.

FFIGUR 19: EFAITH CYNORTHWYWR IEITHOEDD TRAMOR



O'r 64 o ysgolion sydd wedi cael profiad diweddar o gynnal cynorthwyydd ieithoedd tramor, nid yw mwy na dwy allan o dair ohonynt yn gwneud hynny mwyach. Nododd un ymatebydd er mawr ofid iddo:

'Rydym wedi sylwi ar yr effaith roedd cynorthwyr ieithoedd tramor yn eich chael nawr nad oes gennym rai ac mae'r athrawon yn gorfod cynnig sesiynau ychwanegol er mwyn llenwi'r bwlch.'

Dim ond 20 o ysgolion yn ein sampl a nododd eu bod yn cynnal un cynorthwyydd ieithoedd tramor neu fwy ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r ysgolion nad ydynt yn cyflogi cynorthwyydd ieithoedd tramor ar hyn o bryd pam nad ydynt yn gwneud hynny. Y prif reswm, a roddir gan 82 y cant o ymatebwyr, pam nad ydynt yn cynnal cynorthwyydd ieithoedd tramor mwyach yw cyllid:

'Nid oes cyllid ar gael drwy ECTARC [y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithrediad Rhanbarthol] eleni ac nid oes gan yr ysgol arian i dalu am un drwy'r British Council.'

'Diffyg arian, allwn ni ddim fforddio talu am un gyda'r toriadau cyllidebol.'

'Cafodd ein hysgol gyllid y llynedd drwy Her Ysgolion a gwnaethom gais am arian i gyflogi cynorthwydd ieithoedd tramor. Heb y cyllid hwn, nid ydym yn gallu fforddio cynorthwydd ieithoedd tramor, felly nid oes gennym un eleni.'

Nododd nifer fach o ymatebwyr mewn ardaloedd anghysbell neu ynysig mai anawsterau yn gysylltiedig â'u lleoliad daearyddol oedd y rheswm pan nad oeddent yn cyflogi cynorthwydd ieithoedd tramor:

'Dim un ar gael o Brifysgol Bangor. Rhaid i fyfyrwyr deithio mwy na 40 munud ar y trên i ddod i'r ysgol.'

'Ysgol fach yng ngogledd Cymru wledig gydag un athro ieithoedd tramor modern heb Safon Uwch ac felly ni fyddai'n ddewis a fyddai'n gwneud synnwyr yn ariannol.'

'Fel arfer, rydym yn rhannu'r oriau ag ysgol arall, ac eleni, nid oedd gennym neb i'w rhannu gyda nhw.'

Nododd eraill ddiffyg diddordeb gan ddisgyblion neu brinder disgyblion sy'n dewis astudio'r pwnc:

'Dim ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4 a dim ond Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 3.'

'Nid oedd y myfyrwyr o'r farn bod cael cynorthwydd ieithoedd tramor yn gwella eu profiad o ddysgu'r iaith.'

Nododd nifer fach o ymatebwyr mewn ardaloedd anghysbell neu ynysig mai anawsterau yn gysylltiedig â'u lleoliad daearyddol oedd y rheswm pan nad oeddent yn cyflogi cynorthwydd ieithoedd tramor

Pwyntiau allweddol

- Dim ond un neu ddau athro llawn amser sydd gan bron i ddwy ran o dair o adrannau ieithoedd tramor modern (64 y cant) a dim ond un athro llawn amser sydd gan fwy nag un rhan o dair ohonynt (36 y cant).
- Ceir llawer o ddibyniaeth ar athrawon ieithoedd tramor modern rhan amser, ac ar wladolion o wledydd eraill yr UE.
- Roedd tua 34 y cant o'r ysgolion yn cyflogi gwladolion yr UE o aelod-wladwriaethau eraill naill ai fel athrawon ieithoedd tramor modern llawn amser neu ran amser, neu'r ddau.
- Mae'r gostyngiad yn y ddarpariaeth ieithoedd tramor modern wedi cuddio prinder sylfaenol o athrawon, gyda thystiolaeth bod rhai ysgolion yn dibynnu ar athrawon nad ydynt wedi cymhwyso yn y pwnc i bontio bylchau.

Cymorth a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Nododd mwyafrif uchel o ysgolion, 72 y cant, eu bod wedi cael cymorth gan eu Consortiwm Rhanbarthol/Canolfan Ragoriaeth a sefydlwyd fel rhan o gynllun Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru. Nododd 17 y cant nad ydynt wedi cael cymorth o'r fath, a nododd 11 y cant nad oeddent yn siŵr.


Gofynnwyd i'r ysgolion a nododd eu bod wedi cael cymorth, a'r rhai nad oeddent yn siŵr, pa fath o gymorth a gawsant a ph'un a oedd yn ddefnyddiol. Mae'r data cyfoethog a ddarparwyd gan yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos y canlynol:

- Y mathau o gymorth a werthfawrogir fwyaf gan athrawon yw 'cyfleoedd ar gyfer DPP mewn ieithoedd tramor modern' a 'rhannu arfer ag eraill wyneb yn wyneb'. Nododd mwy na hanner yr ymatebwyr bod y rhain wedi bod yn 'ddefnyddiol iawn' a nododd tua un rhan o dair arall bod y cyfleoedd hyn wedi bod yn 'gymharol ddefnyddiol'.



- Nodwyd bod ‘mynediad i adnoddau’ a ‘cyfleoedd i gysylltu drwy rwydweithiau digidol’ hefyd yn werthfawr, ond i raddau llai.
- Y maes y manteisiwyd arno leiaf, ac a werthfawrogir leiaf, yw cymorth i ddatblygu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd. Nid yw mwy na hanner yr ysgolion wedi cael cynnig y cymorth hwn, ac o’r rhai sydd wedi cael cynnig, nid yw cyfran fawr ohonynt wedi cymryd rhan. Mae rhai o’r ysgolion a gymerodd ran (pedair ysgol) o’r farn ‘nad oedd yn ddefnyddiol o gwbl’. Dyma’r unig fath o gymorth a gafodd ymateb hollol negyddol. Mae hyn yn awgrymu nad yw helpu ysgolion cynradd i ddatblygu addysg ieithoedd tramor modern yn uchel ar agendâu adrannau iaith ysgolion uwchradd.

FFIGUR 20: BARN AR Y CYMORTH GAN GONSORTIA RHANBARTHOL



Cafwyd canmoliaeth ar gyfer gwaith y consortia rhanbarthol ar ffurf sylwadau cadarnhaol gan ymatebwyr gydag un consortiwm rhanbarthol yn benodol yn cael adborth ardderchog gan nifer o athrawon yn yr ardal a gwmpesir ganddo. Ceir sampl o’r sylwadau hyn isod ac maent yn ddienw at ddibenion yr adroddiad hwn:

‘Mae ein rhydwraith lleol wedi bod yn wych hyd yma.’

‘Mae gwaith y [consortiwm rhanbarthol]²⁰ wedi bod yn ardderchog o ran ein helpu i gynnig cyrsiau TGAU a Safon Uwch newydd.’

‘Roedd y cymorth a gefais gan y [ganolfan ragoriaeth] yn amhrisiadwy, yn enwedig o ran y manylebau TGAU a Safon Uwch newydd.’

Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth ansoddol gan nifer fach o ymatebwyr y gallai trefniadau rheoli ysgolion gyfyngu ar effaith y consortia rhanbarthol, er enghraifft:

‘Mae’r [consortiwm rhanbarthol] yn ein helpu ac yn rhoi cyllid i ni, ac ati. Fodd bynnag, mae’r ysgol yn llym iawn o ran pryd y gellir ein rhyddhau neu pryd y gallwn gael rhywun i gymryd ein gwersi yn ein lle, e.e. Ni all Penaethiaid yr Adran nau Ffrangeg a Sbaeneg fynychu cyfarfodydd/DPP ar yr un pryd.’

‘Ar hyn o bryd, ni all ein Uwch Dim Arwain roi caniatâd ar gyfer DPP gan eu bod o’r farn bod athrawon cyflenwi yn arwain at ymddygiad aflonyddgar ymysg myfyr wyr. Efallai y dylai DPP fod yn ofyniad statudol.’

Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth ansoddol gan nifer fach o ymatebwyr y gallai trefniadau rheoli ysgolion gyfyngu ar effaith y consortia rhanbarthol, er enghraifft


²⁰Mae’r cyfeiriadau at gonsortia rhanbarthol/canolfannau rhagoriaeth ac unigolion penodol wedi’u cuddio er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

I ba raddau y mae athrawon ieithoedd tramor modern yn cymryd rhan mewn gwahanol fathau o DPP?

Mae'r siart isod yn dangos bod 36 y cant o ysgolion yn trefnu ac yn cyflwyno DPP yn rheolaidd i athrawon ieithoedd tramor modern yn yr ysgol. Mae hyn yn cyferbynnu â chanfyddiadau'r llynedd mai dim ond 28 y cant o ysgolion a oedd wedi trefnu DPP pwnc-benodol ar gyfer eu staff ieithoedd tramor modern yn ystod y flwyddyn flaenorol.²¹ Mae mwy na hanner yr ysgolion (54 y cant) yn anfon o leiaf un athro ieithoedd tramor modern i gael hyfforddiant gan y byrddau arholi yn rheolaidd ac mae tua hanner yn mynychu cyfarfodydd rhwydwaith ag ysgolion a drefnir gan yr awdurdodau lleol, canolfannau rhagoriaeth lleol neu gonsortia rhanbarthol yn rheolaidd. Prin iawn yw'r rhai sy'n manteisio ar weminarau, hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant cymheiriaid gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Prin iawn yw'r rhai sy'n manteisio ar weminarau, hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant cymheiriaid gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

FFIGUR 21: CYFRANOGIAD MEWN MATHAU GWAHANOL O DPP



Gan gymharu'r canlyniadau hyn ag ymatebion i gwestiwn tebyg yn arolwg Tueddiadau Ieithoedd yn Lloegr (2016):

- Mae athrawon iaith yn Lloegr yn defnyddio fformyau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer ieithoedd yn llawer mwy cyffredin (dim ond 21 y cant ohonynt nad oeddent yn cymryd rhan o gwbl, o gymharu â 46 y cant yng Nghymru), ac maent yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan mewn cyrsiau ar-lein neu weminarau (dim ond 16 y cant ohonynt nad ydynt yn gwneud hynny, o gymharu ag 86 y cant yng Nghymru).
- Mae cyfran lawer uwch o adrannau ieithoedd tramor modern yng Nghymru nad ydynt yn cymryd rhan mewn DPP a drefnir yn fewnol sy'n benodol ar gyfer ieithoedd (36 y cant o gymharu â dim ond 14 y cant yn Lloegr). Gellid cysylltu hyn â'r ffaith bod mwy o adrannau ieithoedd tramor modern yng Nghymru sydd ond ag un athro llawn amser neu sy'n dibynnu ar staff rhan amser.

²¹Yn arolwg 2016, cafodd y cwestiwn ei eirio'n gliriach i gyfeirio at DPP ar gyfer ieithoedd, felly mae'n bosibl, drwy ymateb i'r cwestiwn hwn yn arolwg 2017, bod ymatebwyr yn cyfeirio at DPP ysgol gyfan nad yw'n canolbwyntio ar ieithoedd. Fodd bynnag, yn yr arolwg diweddaraf o'r Tueddiadau Ieithoedd yn Lloegr a ofynnodd yr un cwestiwn, roedd 46 y cant yn cymryd rhan mewn DPP mewnol ar gyfer ieithoedd yn rheolaidd a oedd yn cynnwys pob aelod neu'r rhan fwyaf o aelodau'r adran: *Tinsley a Board, Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2015/16*, t. 50; *Language Trends 2016/17, Language Teaching in Primary and Secondary Schools in England*, p. 85.

- Fodd bynnag, mae athrawon ieithoedd tramor modern yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgarwch DPP a drefnir gan fyrddau arholi gyda mwy na hanner yr ysgolion yn cymryd rhan yn rheolaidd, o gymharu â dim ond 29 y cant yn Lloegr.
- Maent hefyd yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir gan awdurdodau lleol a chyfarfodydd rhwydwaith - yn Lloegr, dim ond 24 y cant o ysgolion sy'n gwneud hynny'n rheolaidd, tra bod y ffigur yn 50 y cant yng Nghymru.

Pwyntiau allweddol

- Nododd cynifer â 72 y cant o'r ysgolion a ymatebodd eu bod wedi cael cymorth gan eu consortiwm rhanbarthol/canolfan ragoriaeth a sefydlwyd fel rhan o gynllun Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru. Rhoddodd sawl un sylwadau ffafriol iawn ar y cymorth a gawsant, er bod cyfyngiadau mewnol wedi cyfyngu ar ei effaith mewn rhai ysgolion.
- Cyfleoedd ar gyfer DPP mewn ieithoedd tramor modern a rhannu arfer ag eraill wyneb yn wyneb yw'r mathau o gymorth a werthfawrogi fwyaf gan athrawon.
- Cymorth i ddatblygu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd yw'r maes y manteisiwyd arno leiaf, a chaiff ei werthfawrogi'n llai na mathau eraill o gymorth lle mae ysgolion wedi manteisio ar y cynnig.


Mae bron hanner (49 y cant) yr ysgolion uwchradd yn cysylltu rhywfaint ag ysgolion cynradd lleol ar faterion ieithoedd tramor, ni waeth pa mor gyfyngedig yw'r cyswllt hwnnw. Nid yw hyn wedi newid yn sylweddol ers 2016.

Cysylltiadau ag ysgolion cynradd

I ba raddau y mae ysgolion uwchradd yn cysylltu ag ysgolion cynradd lleol ynghylch dysgu ieithoedd newydd?

Mae bron hanner (49 y cant) yr ysgolion uwchradd yn cysylltu rhywfaint ag ysgolion cynradd lleol ar faterion ieithoedd tramor, ni waeth pa mor gyfyngedig yw'r cyswllt hwnnw. Nid yw hyn wedi newid yn sylweddol ers 2016.

FFIGUR 22: LEFEL Y CYSWLLT SYDD GAN YSGOLION AG YSGOLION CYNRADD LLEOL AR FATERION IEITHYDDOL



Mae'r dystiolaeth ansoddol gan ymatebwyr i'n harolwg yn rhoi darlun cymysg gyda nifer fach o enghreifftiau o gyswllt agos rhwng ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, er enghraifft:

'Ar hyn o bryd, rydym yn cymryd rhan flaenllaw ym mhrosiect Cyfnod Allweddol 2 y consortiwm, ac mae gennym arbenigwyr iaith (a chynorthwydd ieithoedd tramor, diolch i gyllid gan y consortiwm) sy'n mynd i'r ysgolion cynradd er mwyn darparu cynnwys.'

'Mae gennym gynllun pontio llythrennedd amlieithog lle mae disgyblion Blwyddyn 6 yn dod i gael sesiynau pontio rheolaidd.'

'Rwyf wedi addysgu gwersi Ffrangeg yn ein chwe ysgol gynradd clwstwr dros y ddwy flwyddyn ysgol ddiwethaf gan fy mod wedi cael amser i wneud hynny gan ein huwch dim rheoli.'

Ceir enghreifftiau hefyd o arfer blaenorol o ysgolion yn cynnig cymorth ieithoedd tramor modern i'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo ond nad ydynt yn gallu gwneud hynny mwyach oherwydd diffyg arian:

'Roeddem yn arfer chwarae rhan weithgar yn y broses o ddarparu ieithoedd tramor modern yn ein hysgolion cynradd lleol ond mae cyfyngiadau o ran y gyllideb a'r amserlen wedi ein hatal rhag parhau â'r cynllun ers sawl blwyddyn bellach.'

'Digwyddiadau pontio achlysurol - dim byd mwy. Cafwyd toriadau ariannol ar gyfer hyn - roeddem yn arfer mynd i'r ysgolion cynradd i addysgu.'

'Roeddem yn cymryd rhan lawn yn rhaglen CILT Cymru ac yn mynd allan i addysgu yn yr ysgolion cynradd a oedd yn ein bwydo - ond mae'r cyllid wedi dod i ben ac nid ydym mewn cysylltiad rheolaidd mwyach.'

'Roeddem yn arfer bod yn rhan o gynllun peilot lle roedd ieithoedd tramor modern yn cael eu haddysgu yn ein holl ysgolion clwstwr. Roedd hyn yn golygu datblygu cysylltiadau gwerthfawr â'r ysgolion hynny a'r disgyblion. Ychydig iawn o brofiad sydd gan ddisgyblion ysgol gynradd o ddysgu ieithoedd tramor modern y dyddiau hyn.'

Nododd un neu ddau ymatebydd eu bod wedi cysylltu â'u hysgolion cynradd lleol ond nad oeddent wedi cael llawer o ymateb, er enghraifft:

'Rydym yn cynnig gwersi rhagflas i'r ysgolion cynradd, ond nid yw pob ysgol gynradd yn y dalgylch yn fodlon gadael i ni darfu ar ei hamserlen.'

'Rydym wedi cysylltu â'r holl ysgolion cynradd, ond mae llawer ohonynt o'r farn nad oes ganddynt yr amser yn y cwricwlwm i'w dreulio yn dysgu iaith dramor fodern.'

Yn olaf, soniodd lleiafrif o ymatebwyr am y cyswllt rheolaidd rhwng ysgolion uwchradd a chynradd ar gyfer Cymraeg a Saesneg ond na chaiff ieithoedd tramor modern eu cynnwys yn y cyfarfodydd hyn:

'Rhoddir mwy o bwyslais ar yr iaith Gymraeg gyda'r ysgolion cynradd sy'n ein bwydo.'
'Mae'r materion hynny a drafodwn ond yn ymwneud â'r Gymraeg a'r Saesneg.'

'Nid oes gan yr adran ieithoedd tramor modern unrhyw gysylltiad â'r ysgolion cynradd sy'n ein bwydo, fodd bynnag, nid yw hynny'n wir am yr adran Gymraeg sy'n cysylltu â nhw ac yn cynnal cyfarfodydd clwstwr.'

'Cyfarfod clwstwr unwaith y tymor rhwng yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo - diben hyn yw canolbwyntio ar lefelau Cymraeg Ail Iaith - ni cheir unrhyw drafodaeth ynghylch ieithoedd tramor modern.'

Pwyntiau allweddol

- Ceir enghreifftiau o arfer da wrth helpu ysgolion cynradd i osod sylfaen dda ar gyfer ieithoedd tramor modern. Gellid ailadrodd hyn yn ehangach drwy'r rhwydwaith consortia rhanbarthol.
- Collwyd rhywfaint o'r effaith gadarnhaol a gafwyd drwy hen brosiectau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf gan fod y cyllid wedi'i dynnu'n ôl.
- Mae cyfleoedd i integreiddio trafodaeth am ieithoedd tramor modern mewn trefniadau pontio ar gyfer Cymraeg a Saesneg yn cael eu colli.


Digwyddiadau
pontio achlysurol -
dim byd mwy.
Cafwyd toriadau
ariannol ar gyfer hyn
- roeddem yn arfer
mynd i'r ysgolion
cynradd i addysgu.

leithoedd tramor modern ac addysgu Cymraeg

I ba raddau y mae'r ymatebwyr yn gweld bod addysgu Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd yn paratoi disgyblion i lyddo mewn ieithoedd tramor modern?

Nid yw'r mwyafrif o athrawon ieithoedd tramor modern yn ystyried bod addysgu Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd yn sylfaen dda ar gyfer dysgu iaith dramor. Er bod chwech y cant o'r farn ei fod yn baratoad 'ardderchog', ac un rhan o dair o'r farn ei fod yn baratoad 'rhesymol', mae'r gweddill, mwy na 60 y cant, o'r farn mai ychydig iawn o baratoad y mae'n ei roi, os o gwbl.

FFIGUR 23: Y GRADDAU YR YSTYRIR BOD ADDYSGU CYMRAEG A SAESNEG MEWN YSGOLION CYNRADD FEL PARATOAD DA AR GYFER IEITHOEDD TRAMOR MODERN



Mae mwyafrif yr athrawon a ymatebodd i gwestiwn yr arolwg ynghylch y graddau y mae addysgu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol gynradd yn baratoad da ar gyfer ieithoedd tramor modern yn dweud bod gan ddisgyblion sy'n cyrraedd Blwyddyn 7 wybodaeth ramadegol wael yn y ddwy iaith ac na allant wneud cysylltiadau rhwng geirfa a strwythur ieithoedd er mwyn helpu i gaffael iaith dramor newydd. I ddilyn, ceir sampl o'r sylwadau a wnaed gan athrawon, a nodwyd yn ôl y cyfrwng addysgu:

'Nid yw gramadeg disgyblion yn dda iawn o hyd ac mae angen i athrawon ieithoedd tramor modern eu helpu i wneud cysylltiadau.' (Cyfrwng Saesneg - CS)

'Mae sgiliau iaith disgyblion wedi dirywio, mae eu dealltwriaeth o ramadeg y Gymraeg a'r Saesneg yn wan, ac mae diffyg atalnodi yn bryder.' (Cyfrwng Cymraeg - CC)

'Nid yw'n ymddangos bod y broses o addysgu Cymraeg / Saesneg mewn ysgolion cynradd yn cynnwys unrhyw syniad o wneud cysylltiadau rhwng ieithoedd / datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o iaith.' (CS)

'Mae gan ddisgyblion sy'n cyrraedd Blwyddyn 7 ddealltwriaeth wael iawn o gysyniadau iaith ac maent yn cael trafferth gyda strwythur brawddegau sylfaenol. Fel arfer, nid oes ganddynt unrhyw synnwyr bod ieithoedd yn gysylltiedig ac y gall ymwybyddiaeth o un iaith eu helpu i adnabod geirfa / caffael wybodaeth am / datblygu sgiliau mewn ieithoedd eraill.' (CS)

'Ni wneir unrhyw gyswllt â'r tîm Cymraeg Ail Iaith.' (CS)

Mae rhywfaint o dystiolaeth ansoddol yn awgrymu bod athrawon o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o roi sylwadau cadarnhaol ar fuddiannau dwyieithrwydd o gymharu â'u cymheiriaid mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Daw'r ddau sylw canlynol gan ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg:

Bod gan ddisgyblion sy'n cyrraedd Blwyddyn 7 wybodaeth ramadegol wael yn y ddwy iaith ac na allant wneud cysylltiadau rhwng geirfa a strwythur ieithoedd er mwyn helpu i gaffael iaith dramor newydd.

'Mae'n golygu bod disgyblion eisoes wedi arfer meddwl mewn dwy iaith, ac mae rhai elfennau ar ramadeg y Gymraeg yn eu helpu i ddysgu ieithoedd tramor modern.'

'Mae bod yn ddwyieithog o fantais arbennig i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth am sut mae ieithoedd yn gweithio. Maent yn fwy agored i ddysgu ieithoedd newydd a gallant ddefnyddio eu profiad yn y ddwy iaith.'

Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ôl cyfrwng addysgu yr ysgol yn rhoi rhagor o dystiolaeth dros hyn. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ystadegol yn llawer mwy tebygol o ystyried bod y paratoad yn 'arlderchog' neu'n 'rhesymol' o gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg neu ysgolion dwyieithog. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn isel.

FFIGUR 24:

	Dwyieithog	Cyfrwng Saesneg	Cymraeg	Cyfanswm Terfynol
Mae'n wrthgynhyrchiol		1		1
Nid yw'n baratoad o gwbl	5	21	1	27
Mae'n baratoad arlderchog	2	3	2	7
Mae'n baratoad rhesymol	8	23	7	38
Nid yw'n fawr ddim paratoad	9	32	2	43
Cyfanswm Terfynol	25	79	12	116

Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ystadegol yn llawer mwy tebygol o ystyried bod y paratoad yn 'arlderchog' neu'n 'rhesymol' o gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg neu ysgolion dwyieithog.


Pwyntiau allweddol

- Nid yw'r mwyafrif o athrawon ieithoedd yn ystyried bod addysgu Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd yn sylfaen dda ar gyfer dysgu iaith dramor. Er bod chwech y cant o'r farn ei fod yn baratoad 'arlderchog', ac un rhan o dair o'r farn ei fod yn baratoad 'rhesymol', mae'r gweddill, mwy na 60 y cant, o'r farn mai ychydig iawn o baratoad y mae'n ei roi, os o gwbl.
- Ceir tystiolaeth bod llawer o sensiteiddio gwerth dwyieithrwydd ar gyfer dysgu trydedd iaith mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ymgysylltiad rhyngwladol

Mae'r ymatebion meintiol i'r cwestiwn hwn yn dangos lefel uchel o ymgysylltiad rhyngwladol gan ysgolion, yn enwedig wrth drefnu teithiau tramor. Nododd mwy na phedair allan o bump ysgol (82 y cant) eu bod yn trefnu teithiau tramor i ddisgyblion (er nad ydym yn gwybod pa adran sy'n eu trefnu, sawl disgybl sydd dan sylw a ph'un a ydynt yn cynnwys elfen iaith dramor).

FFIGUR 25: MATHAU O YMGYSYLLTIAD RHYNGWLADOL



Mae'r dystiolaeth ansoddol yn rhoi rhywfaint o fanylion am y math o gysylltiadau a theithiau ysgol rhyngwladol a drefnir, er enghraifft:

'Cwrs trochi Ffrangeg ar gyfer disgyblion Safon Uwch a TGAU yn Ffrainc.'

'Fel ysgol ryngwladol sy'n ymrwymedig i ddysgu byd-eang, mae gennym gyfoeth o ysgolion a phartneriaethau rhyngwladol a cheir llawer o symudedd ymysg staff a myfyrwyr. Mae gennym ddau brosiect Erasmus+ ar waith, ac mae cryn ymrwymiad gan staff i'r dimensiwn rhyngwladol. Mae gennym 20 aelod o staff yn dilyn cyrsiau iaith ledled Ewrop mewn un prosiect. Mae gennym Ystafell Ddosbarth Confucius hefyd. Mae aelodau o staff wedi ymweld â Tsieina ac mae un athro wedi dilyn y cwrs trochi Tsieinëeg yn Sefydliad Confucius. Mae gennym lawer o gysylltiadau ag ysgolion ledled y byd yn yr UE a thu hwnt.'

'Rydym wedi gefeillio ag ysgol yn Llydaw. Rydym yn cydweithredu ar brosiectau ac yn trefnu rhaglen gyfnewid flynyddol. Rydym yn anfon disgyblion Blwyddyn 12 ar gyfnod o brofiad gwaith yn Ffrainc neu Wlad Belg bob blwyddyn.'

'Mae gan yr adran ieithoedd tramor modern (a'r ysgol) dri phartner yn Ffrainc. Mae un partner yn Péronnas, ac rydym wedi trefnu taith yno ar ôl ennill cyllid Lefèvre. Mae partner arall yn Wassigny. Bydd y daith gyfnewid hon yn digwydd dros yr ychydig fisoedd nesaf ar ôl i ni ennill cyllid Erasmus+. Mae'r trydydd partner y tu allan i Baris.'

Efallai ei bod yn werth nodi bod cyllid o ffynonellau fel Erasmus+ yn hanfodol er mwyn cynnal rhywfaint o'r gweithgarwch hwn. Gall penderfyniad y DU i adael yr UE effeithio'n andwyol ar hyn.

Fodd bynnag, mewn cyferbyniad i'r uchod, ceir tystiolaeth ansoddol hefyd o ostyngiad mewn gweithgarwch rhyngwladol. Ymysg y rhesymau dros hyn mae mwy o amharodrwydd i aros yng nghartrefi pobl eraill, a phryderon ynghylch risgiau teithiau cyfnewid tramor:

'Eleni, bu'n rhaid i ni ganslo ein taith i Ffrainc oherwydd diffyg diddordeb.'

Efallai ei bod yn werth nodi bod cyllid o ffynonellau fel Erasmus+ yn hanfodol er mwyn cynnal rhywfaint o'r gweithgarwch hwn. Gall penderfyniad y DU i adael yr UE effeithio'n andwyol ar hyn.

'Rydym yn ystyried datblygu cysylltiadau ag ysgolion eraill drwy Skype, negeseuon e-bost neu deithiau cyfnewid. Y broblem gyda theithiau cyfnewid yw nad oes gan ein disgyblion lawer o ddiddordeb ac mae llawer o broblemau yn gysylltiedig ag aros gyda theulu rhywun arall.'

'Methodd ein rhaglen gyfnewid, a sefydlwyd bron i 20 mlynedd yn ôl, oherwydd prinder disgyblion oedd am gymryd rhan. Roedd gennym daith dramor a oedd wedi'i chynnal ers mwy nag wyth mlynedd, ond methwyd â'i chynnal eleni oherwydd prinder disgyblion oedd am gymryd rhan. Roeddem yn arfer mynd i Ffrainc bob yn ail flwyddyn ond daeth hyn i ben ers yr ymosodiadau terfysgol ym Mharis.'

'Hefyd, roeddem yn arfer cynnal teithiau cyfnewid ag ysgol yn Ffrainc, ond daeth hyn i ben yn 2005 pan ddechreuodd yr heddlu fetio'r teuluoedd yn Ffrainc. Hefyd, roedd y risg i'r trefnydd yn rhy fawr mewn cymdeithas lle ceir cymaint o hawliau dau iawndal.'

Mae'r rhesymau hyn yn debyg iawn i'r rhai a nodwyd o'r gwaith ymchwil ar Dueddiadau Ieithoedd a wnaed yn ddiweddar mewn ysgolion uwchradd yn Lloegr.

Mae lefel yr ymgysylltiad mewn gweithgareddau rhyngwladol yn amrywio'n fawr rhwng ysgolion. Er bod 13 o ysgolion yn ein sampl nad oeddent yn cymryd rhan mewn unrhyw un o'r gweithgareddau a restrwyd (a heb nodi 'arall' chwaith), mae tua deg ysgol yn trefnu pedwar neu fwy o'r cyfleoedd a nodwyd.

FFIGUR 26:

Nifer y gweithgareddau	Nifer yr Ysgolion
0	13
1	57
2	23
3	12
4	5
5	3
6	1
7	1
Gwag	3
Cyfanswm Terfynol	118

Mae gan naw o'r deg ysgol sydd â lefelau uchel o ymgysylltiad rhyngwladol lefelau isel o gymhwysedd o ran disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Mae'r graddau y mae ysgolion yn ymgysylltu â gweithgarwch rhyngwladol yn cyd-fynd ag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol: mae cydberthynas ystadegol arwyddocaol rhwng lefelau isel o gymhwysedd o ran disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ac ymgysylltu â mwy nag un gweithgaredd. Hefyd, mae gan naw o'r deg ysgol sydd â lefelau uchel o ymgysylltiad rhyngwladol lefelau isel o gymhwysedd o ran disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Pwyntiau allweddol

- Nododd mwy na phedair allan o bump ysgol (82 y cant) eu bod yn trefnu teithiau tramor i'w disgyblion.
- Mae amharoddrwydd cynyddol ar ran rhieni a disgyblion i aros yng nghartrefi pobl eraill ac, mewn rhai achosion, yr hinsawdd wleidyddol ansicr a chanfyddiadau uwch o risg, yn effeithio'n andwyol ar deithiau cyfnewid disgyblion.
- Mae lefelau ymgysylltiad rhyngwladol yn gysylltiedig ag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol gyda lefelau isel o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gysylltiedig ag enghreifftiau niferus o weithgarwch rhyngwladol yn cael ei drefnu gan yr ysgol.

Effaith Brexit

Yn dilyn canlyniad refferendwm mis Mehefin 2016 ar aelodaeth y DU o'r UE, roedd gennym ddi-ddordeb mewn cael gwybod p'un a gafodd y penderfyniad i adael unrhyw fath o effaith ar y broses o addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion. Nododd ychydig dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn yn ein harolwg nad oeddent wedi sylwi ar unrhyw effaith ar y broses o addysgu ieithoedd tramor modern yn eu hysgol - er bod sawl un yn ychwanegu 'ddim eto'. O'r un rhan o dair sy'n weddill sy'n datgan bod canlyniad y refferendwm wedi cael effaith, nododd bron bob un ohonynt mai effaith negyddol a gafwyd.

I rai, mae canlyniad y refferendwm naill ai wedi cael effaith andwyol ar gymhelliant disgyblion i ddysgu ieithoedd tramor neu wedi atgyfnerthu safbwynt a oedd eisoes yn negyddol o werth dysgu iaith dramor, er enghraifft:

'Ers Brexit, mae'r disgyblion wedi lleisio sawl safbwynt negyddol ar 'ddiben' dysgu ieithoedd tramor modern. Hefyd, nododd rhai disgyblion a all fod wedi parhau i Safon Uwch gyda'r bwriad o'u hastudio yn y brifysgol a mynd ar flwyddyn dramor, amheuaeth oherwydd ansicrwydd mewn perthynas â Brexit.'

'Mae'r disgyblion yn ystyried y ffaith bod y DU yn gadael yr UE yn rheswm arall dros BEIDIO â pharhau i astudio ieithoedd ar ôl Cyfnod Allweddol 3.'

'Mae'r disgyblion yn gofyn beth yw'r pwynt parhau i astudio iaith gan ein bod yn gadael Ewrop.'

'Mae'r disgyblion o'r farn bod ieithoedd Ewrop yn llai perthnasol gan eu bod yn llai tebygol o allu gweithio yno.'

Mae ymatebwyr eraill yn fwy pryderus ynghylch effaith bosibl Brexit ar y broses o gyflogi staff addysgu ar gyfer ieithoedd tramor modern ac yn meddwl tybed p'un a fydd yr athrawon hynny sy'n wladolion yr UE yn gallu parhau i fyw a gweithio yng Nghymru pan fydd y DU wedi gorffen ei thrafodaethau â'r UE. Mae rhai enghreifftiau o'r pryderon hyn fel a ganlyn:

'Yn dibynnu ar benderfyniadau Brexit efallai na fydd croeso i dri o'r pump aelod yn ein hadran fyw yng Nghymru mwyach!'

'Mae Pennaeth yr Adran o Wlad Belg ac mae'n meddwl tybed sut y gall Brexit effeithio ar ei statws ym Mhrydain.'

Nododd lleiafrif bach iawn o ymatebwyr bod y refferendwm wedi rhoi cyfle unigryw iddynt hyrwyddo buddiannau ieithoedd a chodi proffil ieithoedd tramor modern yn eu hysgol, er enghraifft:

'I ddechrau, gwelsom ostyngiad yn y diddordeb mewn ieithoedd gan fod disgyblion o'r farn bod gadael yr UE yn golygu bod ieithoedd yn llai pwysig. Fodd bynnag, ar ôl sgysia a chymryd rhan mewn mentrau Llwybrau at ieithoedd, mae eu barn wedi newid.'

'Rydym yn ceisio cyfleu ei fod yn bwysicach nag erioed gan ei bod yn annhebygol mai Saesneg fydd iaith swyddogol yr UE ar ôl i ni adael.'

'Diolch i ymdrechion ein consortiwm rhanbarthol o ran codi proffil ieithoedd tramor modern, mae'r ymweliadau ac ati wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen i ni fod yn fwy cystadleuol yn y byd o hyn ymlaen.'

Yn dilyn canlyniad refferendwm mis Mehefin 2016 ar aelodaeth y DU o'r UE, roedd gennym ddi-ddordeb mewn cael gwybod p'un a gafodd y penderfyniad i adael unrhyw fath o effaith ar y broses o addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion.

Pwyntiau allweddol

- Nododd y mwyafrif o ysgolion yng Nghymru nad ydynt wedi gweld unrhyw effaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar addysgu ieithoedd tramor modern ers refferendwm mis Mehefin 2016.
- Lle y gwelwyd effaith, mae gan amlaf yn negyddol ac fel arfer mae ar ffurf disgyblion yn cwestiynu gwerth dysgu ieithoedd.

Materion sy'n peri pryder

Ar ddiwedd ein harolwg rydym yn rhoi cyfle i ymatebwyr roi sylwadau ar unrhyw agwedd ar addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru yr hoffent ddweud rhywbeth pellach yn ei gylch neu rywbeth nad ydym wedi'i gwmpasu yn ein cwestiynau. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae hyn yn arwain at gyfoeth o sylwadau ar amrywiaeth eang o bynciau.

Er bod hyn wedi'i gwmpasu gan y cwestiynau yn yr arolwg ei hun, dewisodd rhai ymatebwyr fynegi eu gwerthfarioed ymhellach o waith un neu ddau o'r consortia rhanbarthol. Ceir tystiolaeth, mewn rhai ardaloedd o'r wlad, bod menter Dyfodol Byd-eang yn rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ac i rannu arfer da yn ogystal â rhoi cymorth sydd ei angen yn fawr i athrawon ieithoedd tramor modern hyrwyddo'r pwnc a'i werth i ddisgyblion, er enghraifft:

'Mae dal yn anodd iawn darbwyllo disgyblion i barhau i astudio ieithoedd ac mae'n galw am lawer o ymdrech ac egni gan yr adran. Fodd bynnag, roedd y cymorth gan ein consortiwm rhanbarthol yn wych ac mae'n ymddangos bod y strategaethau'n gweithio.'

'Rydym wedi gweithio'n galed iawn a, gyda chymorth ein consortiwm rhanbarthol, rydym wrth ein bodd bod ein niferoedd yn cynyddu ond mae'n frwydr.'

Ar bwnc gwahanol a llai cadarnhaol, lleisiodd llawer o ymatebwyr gryn bryder ynghylch dyfodol eu pwnc. Mae'r newidiadau a wnaed i'r ffordd y mae disgyblion ym Mlwyddyn 9 yn dewis eu pynciau TGAU drwy'r broses opsiynau, cyflwyno Bagloriaeth Cymru a chwrs Cymraeg hir, gorfodol, yn ogystal â'r newidiadau diweddar i fanylebau TGAU a Safon Uwch sydd â'r nod o sicrhau bod yr arholiadau'n fwy heriol, oll yn cyfrannu at annog disgyblion i beidio ag astudio iaith dramor hyd at lefel TGAU a thu hwnt. Mae'r data ansoddol yn ein hadroddiad o'r arolwg yn rhoi tystiolaeth i gefnogi'r sylwadau hyn a sylwadau eraill a wnaed gan athrawon:

'Rydym yn gweithio'n galed iawn i hyrwyddo ieithoedd, mae'r disgyblion yn ymwybodol bod ieithoedd yn bwysig ac maent yn credu hynny ond maent yn ei chael hi'n anodd iawn. Maent hefyd yn rhwystredig ynghylch y dewis cyfyngedig o opsiynau sydd ar gael ar ôl iddynt ddewis Bagloriaeth Cymru a gwyddoniaeth driphlyg. Nid yw ieithoedd bob amser yn cael blaenoriaeth dros weddill y pynciau. Credaf fod yr arholiadau hefyd yn anodd iawn i'r mwyafrif o'r disgyblion a bydd y disgyblion hynny yn dewis pwnc lle gallant sicrhau gradd sy'n dda yn eu barn nhw.'

'Bydd Cwrs TGAU Cymraeg Llawn Gorfodol yn cael effaith andwyol iawn ar nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern. Yn anffodus, bydd y newidiadau i'r manylebau yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5 yn golygu bod ieithoedd yn elitaidd unwaith eto.'

Ceir tystiolaeth, mewn rhai ardaloedd o'r wlad, bod menter Dyfodol Byd-eang yn rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol

'Nid yw'r ffaith bod yr arholiadau'n anoddach yn ein helpu i gadw disgyblion. Mae amser yn brin yng Nghyfnod Allweddol 3 i ddatblygu sgiliau disgyblion i'r lefelau uwch hyn. Rwy'n bryderus yngylch y ffaith bod gennym fonopoli ar gyfer bwrdd arholi bellach ac yngylch y gwahaniaeth yn y prosesau marcio ar lefel TGAU rhwng ieithoedd, yn enwedig o ran y pwyslais a roddir ar gyfathrebu ar draul cywirdeb gramadegol.'

'Gyda'r pwysau a roddir ar ddisgyblion i gyflawni lefel 2 mewn mathemateg a Saesneg, mae'r prynciau opsiwn yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cael llai a llai o amser cyswllt â disgyblion. Eleni, dim ond am ddwy awr yr wythnos y bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn cael gwersi Ffrangeg.'

Mae rhai yn ystyried mai cyfrifoldeb arweinwyr ysgolion yw llawer o'r heriau y mae athrawon ieithoedd tramor modern yn eu hwynebu o ran darpariaeth eu pwnc a'r nifer sy'n ei astudio. Mae nifer o ymatebwyr yn siarad yn blaen yngylch eu beirniadaeth o arweinwyr ysgolion fel mae'r sampl canlynol o sylwadau yn ei ddangos:

'Nid ystyrir bod ieithoedd yn bwysig, nid fel rhan o'r craidd. Rydym yn colli brwydr gan fod ein huwch dîm arwain wedi dweud wrthym nad ydym yn bwysig. Mae ein disgyblion dan anfantais glir mewn gweithlu byd-eang. Pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn sylweddoli hyn? Oni chaiff ieithoedd tramor modern eu cyfrif mewn mesurau ysgolion a'u cynnwys fel rhan o ddyfarniadau Estyn ar gyfer perfformiad ysgolion, byddwn yn parhau i fod yn bwnc dibwys gyda niferoedd gostyngol. Mae mor drist.'

Hefyd, mae llawer o ymatebwyr o'r farn bod y difaterwch cenedlaethol tuag at ieithoedd tramor a'r diffyg gweithredu cadarnhaol canfyddedig gan y llywodraeth, y cyfryngau a chyrrff dylanwadol eraill hefyd yn helpu i wthio ieithoedd tramor modern i sefyllfa cynyddol fregus y bydd yn anodd iawn iddynt adfer ohoni. Mae'r sylwadau gan ymatebwyr yn lleisio eu rhwystredigaeth a'u pryderon yn glir iawn, er enghraifft:

'Rwy'n teimlo nad yw uwch dimau arwain yn rhoi digon o gefnogaeth i ieithoedd tramor modern mewn ysgolion. Pe byddai asiantaethau allanol yn rhoi mwy o bwysau ar ysgolion i werthfawrogi ieithoedd fel pwnc hwyluso ar gyfer prifysgol, pwnc sy'n ofynnol gan gyflogwyr ac ati, yna ni fyddem yn y sefyllfa anodd sydd gennym ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dim ond gennym ni fel adran ieithoedd tramor modern y caiff erthyglau yn y newyddion ac yn y papurau newydd eu hyrwyddo, ac, fel y cyfryw, gallwn ond weithio o fewn y ffiniau a roddwyd: opsiynau cyfyngedig oherwydd Bagloriaeth Cymru a TGAU Cymraeg Ail Iaith ac arholiadau TGAU ac UG/U2 sy'n gynyddol anodd. Os na fydd asiantaethau allanol, rhanddeiliaid a byrddau arholi yn cefnogi adrannau ieithoedd tramor modern mewn ffordd fwy ffurfiol, ni chaiff y sefyllfa ei gwrthdroi.'

'Mae angen mwy o bwyslais ar werth academaidd a diwylliannol ieithoedd tramor modern. Nid oes rhaid i chi astudio tri phwnc gwyddoniaeth i lwyddo mewn bywyd - mae Cymdeithas Feddygol Prydain yn nodi bod TGAU iaith yn ofynnol ar gyfer pob myfyriwr Meddygaeth o fis Medi 2017. Mae'n bwysig manteisio ar y wybodaeth hon a ffactorau tebyg eraill. Blwyddyn 9 yw'r flwyddyn bwysig i ni ei thargedu (mae'n rhy hwyr erbyn y chweched dosbarth).'

'Mae'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd yn destun pryder. Mae angen i'r llywodraeth hyrwyddo pwysigrwydd ieithoedd tramor modern yn fwy.'

Mae rhai yn ystyried mai cyfrifoldeb arweinwyr ysgolion yw llawer o'r heriau y mae athrawon ieithoedd tramor modern yn eu hwynebu o ran darpariaeth eu pwnc a'r nifer sy'n ei astudio.

'Mae'n ymddangos bod disgyblion yn gwerthfawrogi'r pwnc yn llai - mae'r ysgol ac, yn wir, y system yn rhoi mwy o bwyslais ar fathemateg, Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth. Mewn 20 mlynedd mewn un ysgol, rydym wedi mynd o sefyllfa lle mai ieithoedd tramor modern yw'r norm i sefyllfa lle mae'n bwnc eithaf arbenigol - nid yw'n gwneud lles i ddyfodol ein plant.'

Yr hyn sy'n glir o'r sylwadau agored niferus a ddarparwyd gan athrawon ieithoedd tramor modern a ymatebodd i'n harolwg oedd eu bod yn weithwyr proffesiynol diwyd sy'n frwd ynghylch eu pwnc ac wedi'u cymell gan ddyhead i weld eu disgyblion yn datblygu sgiliau a gwybodaeth a fydd o fudd iddynt drwy gydol eu bywydau fel oedolion. Mae'n amlwg bod llawer o athrawon o'r farn nad ydynt yn cael cefnogaeth a'u bod wedi'u hynysu yn eu hymdrechion i hyrwyddo buddiannau sgiliau ieithoedd tramor modern.

Pwyntiau allweddol

- Mae'r consortia rhanbarthol a sefydlwyd dan fenter Dyfodol Byd-eang yn cael effaith gadarnhaol mewn nifer o ardaloedd o'r wlad a chaiff gwaith yr unigolion dan sylw ei werthfawrogi'n fawr.
- Mae athrawon ieithoedd tramor modern yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan amrywiaeth o ffactorau yn cynnwys newidiadau i'r system opsiynau, manylebau TGAU a Safon Uwch newydd, cyflwyno Bagloriaeth Cymru a gostyngiad mewn oriau addysgu ar gyfer ieithoedd tramor modern, ac maent yn bryderus iawn ynghylch dyfodol eu pwnc.
- Mae llawer o athrawon yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y diffyg cymorth a dealltwriaeth ymddangiadol gan arweinwyr mewn ysgolion.
- Cred athrawon mai'r difaterwch cenedlaethol tuag at ieithoedd a diwylliannau eraill sy'n bennaf cyfrifol am gyflwr ieithoedd tramor modern mewn ysgolion ar hyn o bryd a byddent yn annog y llywodraeth, arweinwyr ysgolion, sefydliadau arbenigol a chyrff dylanwadol eraill i fod yn fwy llafar ynghylch buddiannau ieithoedd i gymdeithas ac i unigolion.



Pennod 5

Casgliadau



1. Mae'r sefyllfa a'r rhagolygon ar gyfer ieithoedd tramor modern yn eithriadol o heriol o hyd gydag ymyriadau yn lliniaru effaith problemau sylfaenol yn hytrach na chyflawni newid systemig

Mae athrawon ieithoedd tramor modern yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan amrywiaeth o ffactorau yn cynnwys newidiadau i'r system opsiynau, manylebau TGAU a Safon Uwch newydd, cyflwyno Bagloriaeth Cymru a gostyngiad mewn oriau addysgu ar gyfer ieithoedd tramor modern, ac maent y bryderus iawn ynghylch dyfodol eu pwnc. Mae'r rhagolygon ar gyfer ieithoedd tramor modern hyd yn oed yn fwy bregus yng nghyd-destun y pwysau ariannol ar ysgolion ac effaith bosibl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4 yn parhau i ostwng, ym Mlwyddyn 10 ac ym Mlwyddyn 11, sy'n awgrymu y bydd y niferoedd ar gyfer TGAU yn gostwng ymhellach yn 2017 a 2018. Y prif resymau a roddwyd dros y gostyngiad yn y niferoedd yw'r pwyslais a roddir ar bynciau gorfodol a chyflwyno Bagloriaeth Cymru sydd wedi gostwng nifer y slotiau opsiwn rhydd. Mae'r sefyllfa ar gyfer ieithoedd tramor modern ôl-16 yn eithriadol o fregus ac yn gwaethygu mewn hinsawdd o gyfyngiadau ariannol sy'n golygu na all ysgolion fforddio cynnal cyrsiau ar gyfer niferoedd bach iawn o ddisgyblion. Rhoddir anhawster yr arholiadau UG a Safon Uwch, cystadleuaeth gan bynciau eraill, a'r gronfa lai o ddisgyblion TGAU i'w denu fel rhesymau dros y niferoedd gostyngol o ddisgyblion sy'n astudio ieithoedd modern ôl-16.

Ceir bygythiad pellach i ddarpariaeth ieithoedd tramor modern gan brinder sylfaenol o athrawon, sefyllfa sy'n debygol o waethygu'n ddifrifol os bydd y cyflenwad o athrawon o wledydd eraill yr UE yn dod i ben ar ôl Brexit - mae tua 34 y cant o ysgolion yn dibynnu ar athrawon o'r fath i addysgu ieithoedd tramor modern. Mae'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n astudio'r pwnc dros nifer o flynyddoedd wedi golygu bod y rhan fwyaf o adrannau ieithoedd tramor modern yn fach iawn, gan gynnwys dim ond un neu ddau athro, ac mae rhai ysgolion yn dibynnu ar athrawon nad ydynt wedi'u cymhwyso yn y pwnc i bontio bylchau. Gall niferoedd bach sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern ac adrannau bach sy'n dibynnu ar athrawon anghymwys neu ran amser arwain at ddirywiad yn y pwnc oherwydd bydd arbenigedd yn diflannu, bydd yn anoddach cael gafael ar gyfleoedd hyfforddiant, a bydd proffil y pwnc yn yr ysgol yn lleihau. Unwaith y bydd disgwyliad y bydd y niferoedd ar gyfer y pwnc yn isel, gall y sefyllfa waethygu oherwydd y ffordd y caiff blociau opsiwn eu strwythuro.

Caiff yr holl ffactorau hyn eu pwysoli yn erbyn ymdrechion gorau athrawon, cydgysylltwyr rhanbarthol a phartneriaid yn y fenter Dyfodol Byd-eang i hyrwyddo'r pwnc. Mae'n annhebygol y caiff newid sylweddol ei gyflawni heb fynd i'r afael â'r problemau systemig amrywiol sy'n atal cyfranogiad eang yn y pwnc y tu hwnt i'r lefel fwyaf sylfaenol. Y brif broblem yw statws israddol ieithoedd tramor modern o gymharu â Chymraeg a Saesneg, prinder amser yn y cwricwlwm o gymharu ag anhawster yr arholiadau, a gwerth canfyddedig ar gyfer gyrfaedd o gymharu â phynciau eraill. Bydd angen i arweinwyr ysgolion fod yn rhan o'r broses o fynd i'r afael â'r problemau hyn ar lefel system ynghyd â datblygu'r cwricwlwm newydd.

Mae'r nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4 yn parhau i ostwng, ym Mlwyddyn 10 ac ym Mlwyddyn 11, sy'n awgrymu y bydd y niferoedd ar gyfer TGAU yn gostwng ymhellach yn 2017 a 2018.

2. Mae Dyfodol Byd-eang eisoes yn cael rhyw effaith ac mae athrawon ieithoedd tramor modern yn gwerthfawrogi gwaith y consortia rhanbarthol

Dylai Llywodraeth Cymru fod yn falch bod cynifer â 72 y cant o ysgolion a gymerodd ran yn arolwg Tueddiadau Ieithoedd eleni yn nodi eu bod wedi cael cymorth gan eu consortiwm rhanbarthol neu ganolfan ragoriaeth. Mae'r athrawon yn canmol y cymorth a gawsant ac roeddent yn benodol yn gwerthfawrogi cyfleoedd ar gyfer DPP mewn ieithoedd tramor modern a chyfleoedd i rannu arfer ag eraill wyneb yn wyneb. Mae hyn yn deyrnged i'r unigolion penodol sy'n arwain rhai o'r consortia rhanbarthol. Heb os, mae cynllun Dyfodol Byd-eang eisoes wedi dangos ei fod yn cael effaith lwyddiannus ac mae nifer fach o ysgolion yn nodi cynnydd yn y niferoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Lle y gwelwyd y cynnydd hwn, roedd o ganlyniad i ymdrechion diwyd yr ysgolion a'r consortia rhanbarthol.

Y cynnig o gymorth ar gyfer datblygu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd yw'r maes y manteisiwyd arno leiaf gan ysgolion neu a werthfawrogi leiaf ganddynt hyd yma ac mae hwn yn faes allweddol i'w datblygu o hyd. Ar yr un pryd, mae her fwy brys, sef diogelu safle'r pwnc yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt cyn i ni gyrraedd sefyllfa lle na all ysgolion gynnig y pwnc mwyach a chaiff arbenigedd ei golli. Mae'n amlwg y bydd angen llawer mwy o adnoddau ac ymdrech i gyflawni'r ddau ofyniad rhyng-gysylltiedig hyn.

3. Mae'r broses o ddatblygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd yng Nghymru yn cynnig cyfle unigryw i ddatblygu 'iaith driphlyg' gyda'r un statws a gwerth â 'gwyddoniaeth driphlyg'

Y brif broblem systemig i'w goresgyn yw'r pwyslais a roddir ar bynciau gorfodol a'r amser ychwanegol a roddir i Gymraeg, Saesneg a Mathemateg sy'n golygu bod prinder lle i ieithoedd tramor modern yn y cwricwlwm yng Nghymru. Mae hyn golygu bod ieithoedd tramor modern yn cystadlu â Chymraeg (a Saesneg) yn lle manteisio ar y cyfle i bob pwnc iaith gefnogi ei gilydd. Mae'r ymatebion i'n harolwg yn dangos faint o waith sydd i'w wneud o ran datblygu'r broses o addysgu Cymraeg a Saesneg ar lefel ysgol gynradd fel sylfaen gefnogol ar gyfer dysgu ieithoedd tramor yn ddiweddarach: gyda mwy na 60 y cant o athrawon yn ein harolwg yn ystyried nad yw'n cynnig llawer o baratoad ar hyn o bryd, os o gwbl. Dyma'r her y mae'n rhaid i ni ei goresgyn nawr wrth i'r Maes Dysgu a Phrofiad newydd Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu gael ei ddatblygu.

Ceir cyfle unigryw dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i wella'r sefyllfa, gan fanteisio ar arbenigedd athrawon sydd â dealltwriaeth ddofn o botensial dwyieithrwydd i helpu i ddysgu trydedd iaith ac ieithoedd dilynol, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ond nid yn gyfyngedig iddynt o gwbl. Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr arbenigedd hwn drwy ailbennu ieithoedd tramor modern yn elfen hanfodol yn y maes cwricwlwm newydd, gan hyrwyddo cyflawni cymwysterau 'iaith driphlyg', ar ôl y model 'gwyddoniaeth driphlyg', fel rhywbeth y dylai pawb anelu ato. Drwy wneud hynny gall fanteisio ar yr awydd am newid sy'n amlwg yn apelïadau didwyll athrawon am fwy o gefnogaeth gan y cyhoedd ar gyfer eu pwnc.

Mae angen llawer mwy o ymdrech a phroffil cyhoeddus llawer uwch na'r hyn a geir ar hyn o bryd ar gyfer y trawsnewidiad sy'n angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth o wneud Cymru yn wlad 'ddwyieithog a mwy'. Rhaid manteisio ar gefnogaeth arweinwyr ysgolion, sefydliadau arbenigol a chyrrff dylanwadol eraill ledled Cymru a thu hwnt.

Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr arbenigedd hwn drwy ailbennu ieithoedd tramor modern yn elfen hanfodol yn y maes cwricwlwm newydd

Atodiad - Proffil ymatebion

Ysgolion Uwchradd Gwladol (CYMRU)

CYFRADD YMATEB

	Sylfaen	Ymateb	Cyfradd Ymateb
Uwchradd	210	118	56.2%

PROFFIL YMATEB

Ystod oedran	Data crai sylfaenol	Sylfaen %	Ymateb crai	Ymateb %
Ysgolion Canol (3 - 16 oed)	4	1.9%	3	2.5%
Ysgolion Canol (3 - 19 oed)	5	2.4%	3	2.5%
Ysgolion Canol (4 - 19 oed)	1	0.5%	0	0.0%
Uwchradd (11-16 oed)	55	26.2%	30	25.4%
Uwchradd (11-19 oed)	145	69.0%	82	69.5%

Consortia addysg	Data crai sylfaenol	Sylfaen %	Ymateb crai	Ymateb %
Gogledd Cymru	55	26.2%	30	25.4%
De-orllewin a Chanolbarth Cymru	62	29.5%	32	27.1%
Canol De Cymru	57	27.1%	32	27.1%
De-ddwyrain Cymru	36	17.1%	24	20.3%

Math o ysgol	Data crai sylfaenol	Sylfaen %	Ymateb crai	Ymateb %
Ysgol Gymunedol	181	86.2%	104	88.1%
Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr	19	9.0%	10	8.5%
Ysgol Wirfoddol a Reolir	2	1.0%	1	0.8%
Ysgol Sefydledig	8	3.8%	3	2.5%

Iaith	Data crai sylfaenol	Sylfaen %	Ymateb crai	Ymateb %
Cyfrwng Cymraeg - Cymraeg	21	10.0%	13	11.0%
Cyfrwng Cymraeg - Dwyieithog (Math A)	18	8.6%	11	9.3%
Cyfrwng Cymraeg - Dwyieithog (Math B)	12	5.7%	10	8.5%
Cyfrwng Cymraeg - Dwyieithog (Math C)	4	1.9%	4	3.4%
Cyfrwng Saesneg - Cyfrwng Saesneg	147	70.0%	75	63.6%
Cyfrwng Saesneg - Saesneg gyda llawer o Gymraeg	8	3.8%	5	4.2%



British Council Cymru 1 Kingsway, Caerdydd CF10 3AQ

Ffôn 0161 957 7755 E-bost general.enquiries@britishcouncil.org Gwefan <https://wales.britishcouncil.org/en>

Twitter @BCouncil_Wales Facebook www.facebook.com/BritishCouncilWales

©British Council 2017

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig sydd yn hyrwyddo cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysg.